NHS choices

Canllawiau fesul gwlad

Teithio yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

NHS choices

Mynegai	Tudalen
Awstria	4
Gwlad Belg	7
Bwlgaria	13
Cyprus	18
Y Weriniaeth Tsiec	25
Denmarc	31
Estonia	37
Y Ffindir	43
Ffrainc	45
Yr Almaen	55
Gwlad Groeg	61
Hwngari	66
Gwlad yr Iâ	71
Iwerddon	77
Yr Eidal	85
Latfia	90
Liechtenstein	96
Lithiwania	101
Lwcsembwrg	106
Malta	112
Yr Iseldiroedd	117
Norwy	123
Gwlad Pwyl	129
Portiwgal	132
Romania	139
Slofacia	143
Slofenia	148
Sbaen	153
Sweden	159
Y Swistir	164

Canllawiau fesul gwlad

Teithio yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yn ardal fasnach rydd rhwng gwledydd yr Undeb Ewropeaidd (UE), Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein.

Mae pob gwlad AEE a restrir isod yn rhoi canllawiau penodol ar sut i gael gofal iechyd neu hawlio ad-daliadau yn ystod ymweliad. Yn syml, dewiswch y wlad yr hoffech ymweld â hi a pharatowch ymlaen llaw ar gyfer eich taith dramor.

Awstria
Gwlad Belg
Bwlgaria
Cyprus
Y Weriniaeth Tsiec
Denmarc
Estonia
Y Ffindir
Ffrainc
Yr Almaen
Gwlad Groeg
Gwlad yr Iâ
Iwerddon
Yr Eidal
Yr Iseldiroedd
Hwngari
Latfia
Liechtenstein
Lithiwania
Lwcsembwrg
Malta
Norwy
Gwlad Pwyl
Portiwgal
Romania
Slofacia
Slofenia
Sbaen
Sweden
Y Swistir

Cael gofal iechyd yn Awstria

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Awstria. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn Awstria.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Awstria

Cysylltwch ag un o swyddfeydd yswiriant iechyd Awstria 'Gebietskrankenkassen' am wybodaeth. Gallech hefyd gysylltu â Hauptverband der Osterreichischen Sozialversicherungstrager am wybodaeth cyn gadael y DU.

Hauptverband der Osterreichischen Sozialversicherungstrager
Verbindungsstelle
Kundmanngasse 21
A-1031 Wien
Awstria

Rhif ffôn: 0043 1 711 320

Mae gwybodaeth ar gael hefyd ar-lein o wefan 'Hauptverband der Osterreichische Sozialversicherungen'. Fe welwch adran o'r enw *'Multilingual information'* sy'n cynnig fersiwn Saesneg.

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Awstria, ffoniwch 144. Gallwch hefyd ddefnyddio 112, sef y rhif cyfatebol i'r Undeb Ewropeaidd. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Bydd triniaeth yn rhad ac am ddim ar yr amod bod gan y meddyg gontract ag un o swyddfeydd yswiriant iechyd rhanbarthol Awstria (Gebietskrankenkasse). Fel arall, bydd tâl yn cael ei godi arnoch. Fodd bynnag, gallwch hawlio rhai o gostau'r driniaeth yn ôl (mwyafswm o 80%) gan y 'Gebietskrankenkasse'.

Deintyddion

Dim ond amrywiaeth gyfyngedig o driniaeth ddeintyddol sydd ar gael o dan system gofal iechyd y wladwriaeth. Os yw'r driniaeth a gawsoch yn cael ei chynnwys, a bod gan y deintydd gontract â'r 'Gebietskrankenkasse' ni fyddwch yn gorfod talu. Fel arall, bydd tâl yn cael ei godi arnoch. Fodd bynnag, gallwch hawlio rhai o gostau'r driniaeth yn ôl (mwyafswm o 80%) o'r 'Gebietskrankenkasse'.

Triniaeth ysbyty

Mae triniaeth i gleifion allanol yn rhad ac am ddim os cewch eich trin mewn ysbyty â chontract â'r 'Gebietskrankenkasse'. Os cewch eich derbyn fel claf mewnol, codir tâl dyddiol am y 28 diwrnod cyntaf yn yr ysbyty. Bydd angen atgyfeiriad gan feddyg arnoch.
Os cewch eich trin gan ysbyty preifat, bydd tâl yn cael ei godi arnoch. Gallwch hawlio rhai o gostau'r driniaeth yn ôl (mwyafswm o 80%) o'r 'Gebietskrankenkasse'.

Presgripsiynau
Gallwch gael meddyginiaeth ar bresgripsiwn gan unrhyw fferyllfa, a bydd cyfradd presgripsiwn safonol yn cael ei chodi.

Ambiwlans
Mae teithiau ambiwlans angenrheidiol wedi'u cynnwys.

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â Hauptverband der Osterreichischen Sozialversicherungstrager neu un o swyddfeydd yswiriant iechyd Awstria (Gebietskrankenkassen) i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Hauptverband der Osterreichischen Sozialversicherungstrager
Verbindungsstelle
Kundmanngasse 21
A-1031 Wien
Awstria

Rhif Ffôn: 0043 1 711 320

Mae ffi safonol am bresgripsiwn a ffi osodedig am dystysgrif yswiriant iechyd gan gwmni yswiriant a chost fechan am logi silindrau ocsigen. Bydd meddygon teulu neu ganolfannau meddygol yn rhoi presgripsiwn.

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Awstria. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Awstria.

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC yn Awstria

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Caiff ad-daliadau eu hawlio'n syth o un o swyddfeydd yswiriant iechyd Awstria, Gebietskrankenkassen. Bydd angen i chi anfon eich derbynebau gwreiddiol gyda'ch hawliad. Cofiwch gadw copïau o unrhyw beth a anfonwch ar gyfer eich cofnodion. Y mwyafswm y gallech ei hawlio'n ôl yw 80% o'r tâl a godwyd arnoch.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn Awstria, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd llawer hirach na hawlio ad-daliad yn Awstria.

Byw yn Awstria

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Awstria.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Awstria i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'ch swyddfa yswiriant iechyd (Gebietskrankenkasse) yn Awstria. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Nid oes angen cofrestru â meddyg teulu. Pan fydd eich E121 neu E106 wedi'i gofrestru, byddwch chi'n cael e-gerdyn Awstriaidd.

Gweithio yn Awstria

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu â'ch swyddfa yswiriant iechyd (Gebietskrankenkasse) yn Awstria. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Nid oes angen cofrestru â meddyg teulu. Pan fydd eich E106 wedi'i gofrestru, byddwch chi'n cael e-gerdyn Awstriaidd.

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yng Ngwlad Belg

Gwybodaeth gyffredinol

Dylech holi p'un a yw meddyg rydych yn dymuno ei weld wedi cofrestru â'r gwasanaeth iechyd gwladol (conventionné/ geconventioneerd) neu a yw'n cynnig gofal iechyd preifat.

Mae cynllun mutuelle/mutualiteit y wladwriaeth yn caniatáu i gleifion ddewis eu darparwr gofal iechyd ar yr amod eu bod yn cadarnhau bod y darparwr wedi cofrestru ag un o'r cwmnïau yswiriant.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yng Ngwlad Belg.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yng Ngwlad Belg

Bydd y Weinyddiaeth Iechyd yn gallu rhoi gwybodaeth i chi.

Y Weinyddiaeth Iechyd
SPF Sante Publique,
Securite de la Chaine Alimentaire et Environment
Eurostation, bloc 2
Place Victor Horta 40 boite 10
1060 Bruxelles
Gwlad Belg

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yng Ngwlad Belg, ffoniwch 100. Gallwch hefyd ddefnyddio 112, sef y rhif cyfatebol i'r Undeb Ewropeaidd. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Mae'r rhan fwyaf o feddygon yng Ngwlad Belg yn cynnig gofal iechyd preifat, ond mae ambell un yn gwneud y ddau. Mae angen talu i feddyg am unrhyw ofal iechyd a ddarperir, ond efallai y gallwch hawlio hyd at 75% o'r costau'n ôl. Efallai bydd y meddyg yn darparu tystysgrif feddygol pan fo angen a dylech ofyn i'ch meddyg bob amser am dderbynneb ar 'Attestation de soins donnés/Getuigschrift voor verstrekte hulp'.

Deintyddion

Mae mwyafrif y deintyddion yng Ngwlad Belg yn cynnig gofal iechyd preifat. Fodd bynnag, mae rhai deintyddion yn derbyn rhandaliad os dangoswch eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC). Dylech holi felly cyn cofrestru â deintydd gan fod costau triniaeth yn amrywio'n fawr.

Mae dinasoedd mwy, Brwsel yn enwedig, yn cynnig deintyddfeydd rhyngwladol, er eu bod yn gallu bod yn llawer drutach.

Ar gyfer unrhyw waith arbenigol, fel corunau a phontydd, efallai bydd y deintydd yn gallu cynnig gwahanol ddewisiadau talu a dyfynbrisiau am eich triniaeth.

Beth bynnag, mae angen talu i'r deintydd am unrhyw ofal iechyd sy'n cael ei roi ond efallai y gallwch hawlio hyd at 75% o'r costau'n ôl. Efallai bydd deintydd yn rhoi tystysgrif feddygol pan fo angen a dylech ofyn bob amser i'ch deintydd am dderbynneb ar 'Attestation de soins donnés/Getuigschrift voor verstrekte hulp'.

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n byw yng Ngwlad Belg fynd at y deintydd o leiaf unwaith y flwyddyn i fod yn gymwys am ad-daliad yswiriant iechyd.

Triniaeth ysbyty
Nid oes angen atgyfeiriad gan feddyg. Gallwch drefnu i weld arbenigwr o'ch dewis mewn unrhyw ysbyty. Mae adrannau Damweiniau ac Achosion Brys hefyd yn cynnig triniaeth yn syth, er na ddylech ddefnyddio hyn yn lle meddyg.

Ym Mrwsel, mae'r 11 ysbyty cyhoeddus mwyaf yn cael eu trefnu o dan Gymdeithas Iris (dim ond mewn Ffrangeg neu Iseldireg mae'r wybodaeth ar gael).

Presgripsiynau
Gallwch gael meddyginiaeth o unrhyw fferyllfa yng Ngwlad Belg, ond yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i chi gyflwyno presgripsiwn. Bydd rhaid i chi dalu am eich presgripsiwn yn y fferyllfa ond gallai'r costau amrywio rhwng 0 % ac 80 %. Dylai'r fferyllydd roi tystysgrif i chi sy'n nodi'r feddyginiaeth a ddarparwyd a'r gost a dalwyd. Mae hyn yn caniatáu i chi hawlio ad-daliadau wedyn gan sefydliad yswiriant iechyd yng Ngwlad Belg.

Yn olaf, efallai y gallwch hawlio'n ôl rywfaint o ofal claf allanol (e.e. ffisiotherapi) os cafodd ei roi ar bresgripsiwn. Ceir rhestr o feddyginiaethau y rhoir ad-daliad amdanynt. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Iechyd yng Ngwlad Belg.

Ambiwlans
Gan amlaf, codir tâl am deithio mewn ambiwlans yng Ngwlad Belg. Nid yw darpariaeth iechyd y wladwriaeth fel arfer yn rhoi unrhyw ad-daliad am ddefnyddio ambiwlans. Mae cost safonol am ddefnyddio ambiwlans (y "100" honedig). Ychwanegir cost hefyd fesul cilomedr sy'n cynnwys pellter y daith i'r ysbyty. Yn y pen draw, byddwch yn cael anfoneb yn y post sy'n nodi'r swm i'w dalu, ac mae'n rhaid i chi dalu'r cyfan.

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu gyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ymlaen llaw ar eu cyfer. Ar gyfer yr holl gyflyrau neu driniaethau eraill, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC am bob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r Weinyddiaeth Iechyd yng Ngwlad Belg i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Y Weinyddiaeth Iechyd
SPF Sante Publique,
Securite de la Chaine Alimentaire et Environment
Eurostation, bloc 2
Place Victor Horta 40 boite 10
1060 Bruxelles
Gwlad Belg

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis yng Ngwlad Belg er mwyn trefnu dialysis yn yr uned agosaf at y man lle byddwch yn aros. Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yng Ngwlad Belg.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yng Ngwlad Belg

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Iechyd am gyngor ar sut i hawlio ad-daliadau yng Ngwlad Belg.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yng Ngwlad Belg, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses yn cymryd llawer mwy o amser na hawlio ad-daliad yng Ngwlad Belg.

Sylwch: ni fyddwch yn gallu hawlio ad-daliadau ar gyfer gofal iechyd preifat.

Byw yng Ngwlad Belg

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yng Ngwlad Belg.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Wlad Belg i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r Weinyddiaeth Iechyd yng Ngwlad Belg. Gellir gofyn i chi hefyd ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yng Ngwlad Belg

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu â'r Weinyddiaeth Iechyd yng Ngwlad Belg. Gellir gofyn i chi hefyd ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd ym Mwlgaria

Gwybodaeth gyffredinol

Y Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol sy'n gweinyddu'r system yswiriant iechyd ym Mwlgaria ac mae'n cael ei gweithredu gan ei hadrannau tiriogaethol – y 28 Cronfa Yswiriant Iechyd ranbarthol.

Mae argaeledd gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth yn amrywio ym Mwlgaria. Er bod clinigau, meddygon ac ysbytai ar gael mewn dinasoedd a threfi mawr, prin yw'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd mwy gwledig.

P'un a ydych yn ymweld â Bwlgaria ar gyfer hamdden neu fusnes, bydd angen i chi ddarparu Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd pan fyddwch yn chwilio am driniaeth.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu ym Mwlgaria.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch ym Mwlgaria

Bydd y Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol yn gallu rhoi gwybodaeth.

Y Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol
1 Kircham Str.
1407 Sofia

Rhif ffôn: 00359 2 965 9124
Gwefan: www.nhif.bg

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser ym Mwlgaria, ffoniwch 150 i alw ambiwlans neu 155 am gymorth brys arall. Efallai yr hoffech gadw'r rhifau yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Mae rhyw 90% o feddygon ym Mwlgaria wedi cofrestru â'r Gronfa Yswiriant Gwladol, ond dylech holi bob amser cyn gwneud apwyntiad. Mae fychan am weld meddyg.
Os bydd angen meddyginiaeth arnoch, bydd meddyg fel arfer yn rhoi ffurflen dderbynneb i chi (ar gyfer afiechydon heblaw rhai cronig) neu bresgripsiwn (afiechydon cronig).

Deintyddion

Dylech holi deintydd sydd â chontract â'r Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol. Fodd bynnag, efallai bydd cyfraniad claf yn cael ei godi. Os nad oes gan y deintydd gontract â'r Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol, codir cost lawn y driniaeth arnoch ac nid yw'r costau hynny'n ad-daladwy.

Triniaeth ysbyty

Mae triniaeth cleifion mewnol yn cael ei darparu gan ysbytai cyhoeddus a phreifat. Fodd bynnag, dylech ofyn am gael eich atgyfeirio at ysbyty sydd â chontract â'r Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol, gan y bydd yn talu cost y driniaeth. Ar ôl cael eich rhyddhau o'r ysbyty, mae gennych hawl i ddau archwiliad ar y mwyaf yn rhan o'ch gofal fel claf mewnol.

Presgripsiynau

Os rhoddwyd ffurflen dderbynneb i chi, gallwch gael eich meddyginiaeth naill ai am ddim neu am gost is. Fodd bynnag, sicrhewch eich bod yn mynd â'r ffurflen dderbynneb at fferyllfa sydd wedi cofrestru â'r Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol neu bydd rhaid i chi

dalu'r pris llawn. Os rhoddwyd presgripsiwn i chi, gallwch ymweld ag unrhyw fferyllfa yng Ngwlad Belg ond bydd rhaid i chi dalu'r gost lawn.

Ambiwlans
Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn rhad ac am ddim mewn argyfwng.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw
Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Bydd y Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol yn gallu rhoi gwybodaeth.

Y Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol
1 Kircham Str.
1407 Sofia

Rhif ffôn: 00359 2 965 9124
Gwefan: www.nhif.bg

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros ym Mwlgaria. Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd ym Mwlgaria.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC ym Mwlgaria

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Bydd y Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol yn gallu rhoi gwybod sut i hawlio ad-daliadau ym Mwlgaria.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser ym Mwlgaria, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses yn cymryd llawer mwy o amser na hawlio ad-daliad ym Mwlgaria.

Ni fydd unrhyw gostau am ofal iechyd preifat yn cael eu had-dalu.

Byw ym Mwlgaria

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd ym Mwlgaria.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Fwlgaria i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio ym Mwlgaria

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106
Bydd angen i chi gysylltu â'r Gronfa Yswiriant Iechyd Gwladol. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys o hyd am driniaeth o dan y GIG?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

NHS choices

Cael gofal iechyd yn Cyprus

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Cyprus. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd. Ni fydd unrhyw gostau ar gyfer gofal iechyd preifat yn cael eu had-dalu.

Mae'r system sector iechyd cyhoeddus yn cynnwys wyth ysbyty a nifer o ganolfannau gofal iechyd sylfaenol ledled y wlad. Mae'r ysbytai'n cynnig gwasanaethau ar gyfer gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gofal trydyddol. Mae un o'r ysbytai ym mhrifddinas Cyprus, Nicosia, yn arbenigo mewn gwasanaethau i'r fam a'r plentyn, tra bo'r ysbyty arall yn Nicosia yn cael ei ddefnyddio fel ysbyty atgyfeirio ar gyfer problemau gofal iechyd difrifol iawn.

Nid yw eich ffurflen EHIC, E106 nac E121 yn ddilys yn yr ardaloedd hynny o Weriniaeth Cyprus lle nad oes gan Lywodraeth y Weriniaeth reolaeth effeithiol (rhan ogleddol Cyprus). Cynghorir chi'n gryf i gael yswiriant iechyd preifat cyn teithio i'r rhan hon o'r wlad.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu am Driniaeth mewn Argyfwng yn unig a bydd rhaid i chi dalu am driniaeth fel claf mewnol.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Cyprus

Bydd y Weinyddiaeth Iechyd yn gallu rhoi gwybodaeth i chi.

Y Weinyddiaeth Iechyd
10 Markou Drakou
Palloriotissa
1448 Nicosia

Rhif ffôn: 00 357 55 400220

Gwefan: www.moh.gov.cy

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Cyprus, ffoniwch 199. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon
Gallwch gael triniaeth gan feddygon sy'n ymarfer mewn canolfannau gofal iechyd gwladol. Codir 2 Ewro arnoch am bob ymweliad.

Deintyddion
Gallwch gael triniaeth gan ddeintyddion sy'n ymarfer mewn canolfannau gofal iechyd gwladol. Codir 2 Ewro arnoch am bob ymweliad a 76.89 Ewro am bob dant gosod.

Triniaeth ysbyty
Ni allwch gael triniaeth claf mewnol oni fydd meddyg gwladwriaethol yn eich cyfeirio at ysbyty neu oni chewch eich derbyn drwy adran ddamweiniau ac achosion brys ysbyty gwladwriaethol.

Presgripsiynau
Mae presgripsiynau a roddir gan feddyg gwladwriaethol yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, mae'n rhaid eu cyflwyno i fferyllfa wladwriaethol neu codir tâl arnoch.

Ambiwlans
Mae teithiau ambiwlans yn rhad ac am ddim os byddwch yn dangos eich cerdyn EHIC neu gerdyn meddygol Cypraidd.

Ambiwlans awyr
Ni fyddwch wedi'ch diogelu am unrhyw gludiant mewn ambiwlans awyr. Bydd rhaid i chi dalu felly ac nid yw'r costau hyn yn ad-daladwy.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw
Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC am bob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r Weinyddiaeth Iechyd i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Y Weinyddiaeth Iechyd
10 Markou Drakou
Palloriotissa
1448 Nicosia

Rhif ffôn: 00 357 22 400 135

E-bost: tantoniou@mphs.moh.gov.uk

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Cyprus. Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Cyprus.

Gofal diabetig arferol, fel profion gwaed
Bydd y meddyg yn ystyried pa driniaeth y gofynnir amdani ac am ba hyd rydych chi'n bwriadu aros dramor er mwyn penderfynu a oes angen unrhyw driniaeth.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn Cyprus

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae'n eich diogelu hefyd am drin cyflyrau meddygol a oedd yn bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Nid oes unrhyw ad-daliadau. Dim ond am eich cyfran chi o'r costau y codir tâl arnoch. Os nad oes gennych EHIC, dylech gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar 0044 191 218 1999 i ofyn am Dystysgrif Gyfnewid Dros Dro.

Byw yn Cyprus

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Cyprus.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Cyprus i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu ag un o'r ysbytai gwladwriaethol neu'r Weinyddiaeth Iechyd a rhoi copi iddynt o'r E121/E106 gwreiddiol yn ogystal â ffurflen gais wedi'i chwblhau ar gyfer Cerdyn Meddygol Cypraidd. Gellir llwytho'r ffurflen i lawr o'i gwefan neu mae ar gael gan y Weinyddiaeth Iechyd.

Dylech hefyd gysylltu â'r Gofrestrfa Sifil a'r Adran Fudo i gofrestru fel dinesydd yr UE.
Gallwch gael gofal iechyd gwladol tra byddwch yn aros am Gerdyn Meddygol drwy ddangos copi o'ch E121 neu E106.
Bydd eich cymhwyster am ofal iechyd yn dechrau o'r dyddiad cofrestru ac nid o'r dyddiad ymgeisio.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn Cyprus

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106
Bydd angen i chi gysylltu ag un o'r ysbytai gwladwriaethol neu'r Weinyddiaeth Iechyd a rhoi copi iddi o'r E121/ E106 gwreiddiol yn ogystal â ffurflen gais wedi'i llenwi ar gyfer Cerdyn Meddygol Cypraidd. Gellir llwytho'r ffurflen i lawr o'i gwefan neu mae ar gael gan y Weinyddiaeth Iechyd.

Dylech hefyd gysylltu â'r Gofrestrfa Sifil a'r Adran Fudo i gofrestru fel dinesydd yr UE.
Gallwch gael gofal iechyd gwladol tra byddwch yn aros am Gerdyn Meddygol drwy ddangos copi o'ch E106.
Bydd eich cymhwyster am ofal iechyd yn dechrau o'r dyddiad cofrestru ac nid o'r dyddiad ymgeisio.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn y Weriniaeth Tsiec

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr y Weriniaeth Tsiec. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf tuag at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi gwneud y trefniadau gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn y Weriniaeth Tsiec.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn y Weriniaeth Tsiec

Bydd y 'Centrum mezistatnich uhrad' (y Ganolfan ar gyfer ad-daliadau rhyngwladol) yn gallu rhoi gwybodaeth i chi.

Centrum mezistatnich uhrad (CMU)
Nam. W. Churchilla 2
11359 Prague 3

Rhif ffôn: 0042 202 3446 2041
E-bost: info@cmu.cz
Gwefan: www.cmu.cz

Mae swyddfeydd lleol gan y CMU yn y rhan fwyaf o'r dinasoedd. Yma, gallwch gael rhestr o weithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi cofrestru â'r gronfa.

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn y Weriniaeth Tsiec, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Holwch feddyg sydd wedi cofrestru â'r CMU. Codir ychydig o gyfraniad claf arnoch. Os nad yw'r meddyg yn gofrestredig, bydd rhaid i chi dalu costau llawn y driniaeth, ac nid ydynt yn ad-daladwy.

Ar gyfartaledd, codir 30 CZ koruna arnoch am bob ymgynghoriad, gan gynnwys, er enghraifft, meddygon teulu, arbenigwyr traed neu gynaecolegydd. Dylid rhoi presgripsiynau meddyginiaeth, profion labordy neu archwiliadau eraill gyda nifer briodol o gopïau o 'Potvrzeni o naroku' (tystysgrif hawl). Bydd rhaid i chi gyflwyno tystysgrif i'r darparwr gofal iechyd perthnasol sy'n gyfrifol am eich triniaeth.

Deintyddion

Mae gofal deintyddol safonol wedi'i ddiogelu gan y system yswiriant iechyd. Fodd bynnag, mae'n rhaid talu am rywfaint o driniaeth ddeintyddol ychwanegol. Codir 30 CZ koruna arnoch am archwiliad clinigol a rhyw 90 CZ koruna am unrhyw driniaeth mewn argyfwng.

Triniaeth ysbyty
Mae rhestr o ysbytai sy'n cynnig gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth ar gael ar-lein gyda'r CMU. Bydd arnoch angen atgyfeiriad gan feddyg ar gyfer gofal arbenigol. Codir 30 CZ koruna am driniaeth claf allanol arbenigol. Codir 60 CZ koruna am bob diwrnod o driniaeth claf mewnol. Gall hyn gynnwys lleoedd gwyliau iechyd neu sbas os ydynt yn rhan o'ch triniaeth.

Mae 90 CZ koruna yn ddyledus am driniaeth frys mewn ysbyty os cafwyd y driniaeth hon ar benwythnos, yn ystod gwyliau neu rhwng 5pm a 7am ar ddiwrnodau gwaith, oni fyddwch yn cael eich derbyn i'r ysbyty yn dilyn hynny.

Presgripsiynau
Mae'r gost am feddyginiaeth ar bresgripsiwn yn amrywio. Fodd bynnag, codir tâl safonol o 30 CZ koruna am unrhyw eitem, sy'n cael ei dalu'n llawn neu'n rhannol gan y CMU. Mae hyn yn berthnasol waeth faint o becynnau sydd ar y presgripsiwn.

Ambiwlans
Mae gwasanaeth ambiwlans yn rhad ac am ddim.

Ambiwlans awyr
Mae gwasanaeth ambiwlans awyr yn rhad ac am ddim.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw
Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r CMU i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Centrum mezistatnich uhrad (CMU)
Nam. W. Churchilla 2
11359 Prague 3

Rhif ffôn: 0042 202 3446 2041
E-bost: info@cmu.cz

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn y Weriniaeth Tsiec. Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn y Weriniaeth Tsiec.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn y Weriniaeth Tsiec

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Ar y cyfan, ni ddylid codi tâl arnoch am unrhyw beth heblaw'r ffioedd cyfraniad claf safonol.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn y Weriniaeth Tsiec, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd llawer hirach na hawlio ad-daliad yn y Weriniaeth Tsiec.

Byw yn y Weriniaeth Tsiec

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn y Weriniaeth Tsiec.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i'r Weriniaeth Tsiec i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r CMU. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Gallwch ymgynghori ag unrhyw feddygfa deulu ag yr hoffwch ar yr amod ei bod wedi cofrestru â'r CMU. Mae'n dibynnu ar bolisi'r feddygfa a fydd yn rhaid i chi gofrestru â'r meddyg teulu o'ch dewis.

Gweithio yn y Weriniaeth Tsiec

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu â'r CMU. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Gallwch fynd at unrhyw feddygfa deulu ag yr hoffwch ar yr amod ei bod wedi cofrestru â'r CMU. Mae'n dibynnu ar bolisi'r feddygfa a fydd yn rhaid i chi gofrestru â'r meddyg teulu o'ch dewis.

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Nenmarc

Ynysoedd Ffaröe

Nid yw Ynysoedd Ffaröe yn rhan o'r AEE. Mae ganddynt gytundeb gofal iechyd cyfatebol ar wahân gyda'r DU, sy'n cynnwys gofal sydd ei angen ar unwaith yn unig.

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Nenmarc. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol gan na fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd. Nid yw unrhyw gostau ar gyfer gofal iechyd preifat yn cael eu had-dalu.

Nid yw pobl heb genedligrwydd y DU, yr UE, AEE neu'r Swistir wedi'u diogelu yn Nenmarc. Fodd bynnag, rhoir triniaeth mewn ysbyty cyhoeddus yn rhad ac am ddim pan fydd rhywun mewn damwain, yn dioddef salwch sydyn, yn rhoi genedigaeth, neu pan fydd clefyd cronig rhywun yn gwaethygu'n sydyn.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Nenmarc

Dylech gysylltu â'ch bwrdeistref leol a elwir hefyd yn Kommune.

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Nenmarc, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Mae ymgynghoriadau â'ch meddyg wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, dylech holi a yw'r meddyg wedi cofrestru â gwasanaeth iechyd cyhoeddus Denmarc a dangos eich EHIC oherwydd gellid codi tâl arnoch am rywfaint o ofal meddygol fel arall. Gallwch hawlio'n ôl swm llawn ymgynghoriad y meddyg os codwyd tâl arnoch.

Deintyddion

Mae ymgynghoriadau â'ch deintydd wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, dylech holi a yw'r deintydd wedi cofrestru â gwasanaeth iechyd cyhoeddus Denmarc a dangos eich EHIC oherwydd gellid codi tâl arnoch am rywfaint o ofal meddygol fel arall. Os codwyd y pris llawn arnoch, efallai y gallwch hawlio rhan o gostau deintyddol penodol yn ôl.

Triniaeth ysbyty

Mae triniaeth feddygol yn yr ysbyty yn rhad ac am ddim. Caiff ei threfnu fel arfer gan feddyg. Os na allwch weld meddyg, dangoswch eich EHIC i'r awdurdodau ysbyty pan gewch eich derbyn a gofynnwch iddynt drefnu triniaeth feddygol rad ac am ddim i chi.

Presgripsiynau
Codir tâl arnoch am feddyginiaeth ar bresgripsiwn. Mae cyfraddau ad-dalu meddyginiaethau cymeradwy yn gallu amrywio. Nid oes unrhyw wariant o dan DKK 445 yn cael ei ad-dalu i gleifion dros 18. Fodd bynnag, ar gyfer plant, gallwch ymgeisio am ad-dalu hyd at 50% o wariant.

Byddwch chi'n cael cerdyn arbennig i gofrestru'r presgripsiynau a brynoch pan fyddwch yn ymweld â fferyllfa. Os na, cadwch eich holl bresgripsiynau a'r derbynebau gwreiddiol a gwnewch gais am ad-daliad yn y fwrdeistref leol (Kommune).

Ambiwlans
Mae'r gwasanaeth ambiwlans neu 'Gerbyd Salwch Arbennig', yn rhad ac am ddim mewn argyfwng.

Ambiwlans awyr
Nid oes unrhyw reolau arbennig ar gyfer cludiant mewn ambiwlans awyr.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw
Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r corff cyswllt i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn i chi adael y DU. Nid oes cost am ddarparu ocsigen pan gaiff ei ddarparu drwy ysbyty cyhoeddus.

Sundhedsstyrelsen
(Bwrdd Iechyd Cenedlaethol) Islands
Brygge 67, Postboks 1881
2300 Copenhagen S

Rhif Ffôn: 00 45 7 222 7400

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Nenmarc. Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Nenmarc.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn Nenmarc

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd yn bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Cysylltwch â'r swyddfa fwrdeistref leol (Kommune). Bydd angen i chi ddangos eich pasbort DU neu EHIC a'ch holl bresgripsiynau a derbynebau gwreiddiol. Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad tra buoch i ffwrdd, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd llawer hirach na hawlio ad-daliad yn Nenmarc.

Byw yn Nenmarc

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Nenmarc.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Ddenmarc i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, dylech gysylltu â'r Swyddfa Gofrestru Genedlaethol (Folkregister) ar gyfer y fwrdeistref lle byddwch yn byw.

Sut i gofrestru â meddyg teulu neu ddeintydd

Wrth gofrestru yn y Swyddfa Gofrestru Genedlaethol gofynnir i chi a hoffech ddefnyddio grŵp yswiriant, sy'n eich galluogi i gofrestru â meddyg teulu penodol. Nid oes angen i'r rheini sy'n dewis grŵp yswiriant 2 gofrestru â meddyg teulu penodol oherwydd gallwch fynd at unrhyw feddyg neu arbenigwr. Fodd bynnag, bydd angen i chi dalu rhan o ffi'r meddyg.

Nid oes angen cofrestru â deintydd.

Gweithio yn Nenmarc

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106
Dylech gysylltu â'r Swyddfa Gofrestru Genedlaethol (Folkregister) ar gyfer y fwrdeistref y byddwch yn byw ynddi.

Sut i gofrestru â meddyg teulu neu ddeintydd
Wrth gofrestru yn y Swyddfa Gofrestru Genedlaethol gofynnir i chi a hoffech ddefnyddio grŵp yswiriant, sy'n eich galluogi i gofrestru â meddyg penodol. Nid oes angen i'r rheini sy'n dewis grŵp yswiriant 2 gofrestru â meddyg penodol oherwydd gallwch fynd at unrhyw feddyg neu arbenigwr. Fodd bynnag, bydd angen i chi dalu rhan o ffi'r meddyg.

Nid oes angen cofrestru â deintydd.

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Estonia

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr y wlad rydych chi'n ymweld â hi. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd. Nid yw unrhyw gostau ar gyfer gofal iechyd preifat yn ad-daladwy.

Nid yw gwladolion y Swistir wedi'u diogelu yn Estonia

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Estonia

Bydd cronfa yswiriant iechyd Estonia 'Eesti Haigekassa' yn gallu rhoi gwybodaeth i chi.

Eesti Haigekassa
Yr Adran Cysylltiadau Rhyngwladol
Lembitu 10
Tallinn 10114

Ffôn: 00372 620 8430

E-bost: info@haigekassa.ee
Gwefan: www.haigekassa.ee

Mae swyddfeydd lleol hefyd yn Tartu, Johvi a Parnu

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Estonia, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Bydd rhaid i chi dalu rhan o gost unrhyw driniaeth feddygol a gewch, gan gynnwys ymweliadau cartref gan feddyg. Nid yw'r costau hyn yn ad-daladwy. Codir ffi o EEK 50 ond gallai hyn amrywio.

Deintyddion

Bydd rhaid i chi dalu rhan o gost unrhyw driniaeth feddygol a gewch gan ddeintydd. Gall plant o dan 19 gael triniaeth feddygol ddeintyddol am ddim, ac nid oes rhaid i oedolion dalu am dynnu dannedd na thorri crawniadau.

Triniaeth ysbyty
Os cewch eich derbyn i'r ysbyty fel claf mewnol, bydd rhaid i chi dalu ffi claf mewnol hyd at EEK 25 y dydd am hyd at 10 diwrnod bob tro y cewch eich derbyn i'r ysbyty.

Nid oes unrhyw ffi claf mewnol ar gyfer:

- plant o dan 19 oed,
- achosion sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a geni plant, a
- gofal dwys.

Presgripsiynau
Codir ffi safonol arnoch. Weithiau, bydd rhaid hefyd i chi dalu canran o'r costau uwchlaw'r ffi safonol. Os nad yw'r feddyginiaeth ar y rhestr genedlaethol o gynnyrch meddyginiaethol, bydd rhaid i chi dalu'r costau llawn. Nid yw hyn yn ad-daladwy.

Ambiwlans
Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn rhad ac am ddim mewn argyfwng.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw
Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r Eesti Haigekassa i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn i chi adael y DU. Mae'r claf yn talu am silindrau ocsigen. Dim ond o ddau le yn Estonia mae ocsigen ar gael.

Clinig Ysgyfaint Ysbyty Prifysgol Tartu,
(L.Puusepa 8)
51014 Tartu

Ffôn: 00372 53318034

neu

Ysbyty Rhanbarthol Gogledd Estonia
(Sutiste tee 19),
13419 Tallinn

Ffôn: 00372 6971300 neu 00372 697 1049

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Estonia. Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Estonia.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn Estonia

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sydd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Nid oes unrhyw system ad-dalu yn Estonia. Os oes gan y darparwr gwasanaeth iechyd gontract â'r Eesti Haigekassa, caiff yr holl gostau eu had-dalu iddo'n syth o'r gronfa.

Dim ond swm eich cyfraniad eich hun rydych chi'n ei dalu. Fodd bynnag, os yw'r darparwr gwasanaeth iechyd yn breifat mae'n rhaid i chi dalu'r costau llawn.

Byw yn Estonia

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i awdurdodau iechyd Estonia.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Estonia i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'ch Eesti Haigekassa lleol a rhoi 2 gopi iddynt o'r E121/E106 gwreiddiol yn ogystal â chopi o'ch pasbort neu drwydded breswylio. Anfonir y ffurflen at yr adran cysylltiadau rhyngwladol a dylech gael eich diogelu ymhen mis.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn Estonia
Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106
Bydd angen i chi gysylltu â'ch Eesti Haigekassa lleol a rhoi 2 gopi iddynt o'r E106 gwreiddiol yn ogystal â chopi o'ch pasbort neu drwydded breswylio.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?
Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn y Ffindir

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylydd y Ffindir. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi gwneud y trefniadau gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn y Ffindir.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn y Ffindir

Bydd swyddfa leol adran yswiriant salwch y Ffindir 'KELA' yn gallu rhoi gwybodaeth.

KELA
Nordenskioldinkatu 12
00250 Helsinki

NHS choices

Gwefan: http://www.kela.fi/in/internet/english.nsf

Mae'r Ganolfan Argyfwng i Dramorwyr yn cynorthwyo cleifion â phroblemau iechyd meddwl a chymdeithasol yn rhad ac am ddim.

Y Ganolfan Argyfwng i Dramorwyr
Simonkatu 12 B 13
00100 Helsinki

Rhif Ffôn: 00358 9 685 2828

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn y Ffindir, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn. Mae dinasoedd mawr fel Helsinki, Espoo, Kauniainen neu Ventaa yn cynnig canolfan alwadau gwasanaeth iechyd. Ffoniwch 00358 9 10023 os ydych yn ymweld ag un o'r dinasoedd y sonnir amdanynt uchod a bod angen cyngor meddygol arnoch. Caiff y ganolfan alwadau ei chynnal gan staff meddygol cymwysedig ac mae ar agor 24 awr drwy gydol y flwyddyn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Bydd y ganolfan iechyd leol yn gallu cynnig triniaeth feddygol i chi. Mae gwasanaethau'n rhad ac am ddim, ond gallai rhai canolfannau KELA godi tâl am wasanaethau arbennig. Mae'r tâl safonol, os yw'n berthnasol, rhwng 11 Ewro a 22 Ewro am bob ymgynghoriad, gan gynnwys profion labordy a phelydrau-x. Os oes angen i chi ymgynghori â meddyg y tu allan i oriau swyddfa rheolaidd, bydd angen i chi dalu tâl ychwanegol o 15 Ewro.

Deintyddion
Mae gwasanaethau deintyddol ar gael yn gyffredinol gan y ganolfan iechyd leol. Ni ddylai costau deintyddol fod yn fwy nag 80 Ewro. Bydd unrhyw un o dan 18 oed yn cael triniaeth ddeintyddol yn rhad ac am ddim. Cofiwch nad yw pob canolfan iechyd yn cynnal gwasanaeth deintyddol 24 awr.

Triniaeth ysbyty
Er mwyn cael eich derbyn i ysbyty, bydd angen i chi gael atgyfeiriad gan feddyg. Fodd bynnag, mewn argyfwng gallwch gysylltu'n uniongyrchol ag ysbyty.
Codir 26 Ewro y dydd am driniaeth claf mewnol, ac nid yw'n ad-daladwy. Os ydych o dan 18 oed, rhaid talu'r tâl dyddiol am fwyafswm o saith diwrnod mewn blwyddyn galendr.
Codir 22 Ewro am bob ymweliad ar gyfer triniaeth claf allanol.
Y tâl am lawdriniaeth ddydd yw 72 Ewro.
Os cewch eich derbyn i ysbyty preifat, bydd rhaid i chi dalu holl gostau'r driniaeth, ond gellir hawlio ad-daliad hyd at fwyafswm o 75% gan swyddfeydd cangen y KELA.

Presgripsiynau
Gallwch fynd at unrhyw fferyllfa gyda'ch presgripsiwn. Dylai'r fferyllwyr roi derbynneb am bob taliad presgripsiwn, y gellir ei defnyddio wedyn i hawlio eich ad-daliad.

Ambiwlans
Dim gwybodaeth ar gael

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen

Os oes angen therapi ocsigen arnoch yn ystod eich amser yn y Ffindir, mae'n rhaid i chi wneud trefniadau gyda'r ysbyty perthnasol ymlaen llaw. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r KELA neu ewch i wefan KELA.

KELA
Nordenskioldinkatu 12
00250 Helsinki

Dialysis

Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn y Ffindir. Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn y Ffindir.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn y Ffindir

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Caiff ad-daliadau eu hawlio o'ch swyddfa KELA leol yn y Ffindir. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen ar gefn datganiad ffioedd y meddyg neu roi manylion eich cyfeiriad preswyl. Bydd angen hefyd i chi ddarparu manylion cyfrif banc, gan gynnwys cyfeiriad a chod SWIFT eich banc, rhif cyfrif ac IBAN/BIC.

Fel arall, gallwch anfon copi o'r holl ddogfennau ynghyd â'r copi o'ch EHIC yn y post i swyddfa gangen KELA. Cofiwch gadw copïau o bopeth a anfonwch ar gyfer eich cofnodion.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn y Ffindir, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad yn y Ffindir.

Byw yn y Ffindir

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi ymgeisio am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i awdurdodau iechyd y Ffindir.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i'r Ffindir i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'ch swyddfa KELA leol. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

NHS choices

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn y Ffindir

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu â'ch swyddfa KELA leol. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r ffurflen E106 wreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Ffrainc

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylydd Ffrainc. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn Ffrainc.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Ffrainc

Bydd y Centre des Liaisons Europeennes et Internationales de Secruite Sociale (CLEISS) yn gallu rhoi gwybodaeth i chi.

Centre des Liaisons Europeennes et Internationales de Secruite Sociale (CLEISS)
11 Rue de la Tour des Dames
75436 Paris Cedex 09

Rhif Ffôn: 0033 1 45 26 33 41
Gwefan: www.cleiss.fr

Mae gwybodaeth ar gael hefyd gan swyddfa'r 'Caisse Primaire D'Assurance Maladie' (CPAM) [asiantaeth Yswiriant Iechyd Gwladol] sy'n ymdrin â'r ardal lle rydych yn aros.

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Ffrainc, ffoniwch 15. Gallwch hefyd ddefnyddio 112, sef y rhif cyfatebol i'r Undeb Ewropeaidd. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Cyn trefnu apwyntiad â meddyg neu ddeintydd sicrhewch eu bod wedi cofrestru â'r darparwr gofal iechyd gwladol yn Ffrainc (conventionné ie). Mae ymarferwyr 'Conventionné' yn gallu perthyn i un o'r ddau gategori canlynol:

Secteur 1: ymarferwyr sy'n codi'r gyfradd nawdd cymdeithasol swyddogol neu
Secteur 2: ymarferwyr sy'n codi ffi ychwanegol ar ben y gyfradd swyddogol

Meddygon

Mae'n rhaid i chi dalu i'r meddyg yn uniongyrchol. Bydd y meddyg wedyn yn llenwi ffurflen driniaeth (feuille de soins) a phresgripsiwn os oes angen. Mae angen y ffurflen driniaeth i hawlio unrhyw ad-daliadau. Gallwch hawlio tua 70% o gost y driniaeth safonol yn ôl. Y gyfradd safonol am ymgynghoriad â meddyg teulu yw 21 Ewro a 25 Ewro am ymgynghoriad ag arbenigwr.

Deintyddion

Mae'n rhaid i chi dalu'n uniongyrchol i ddeintyddion , a byddant wedyn yn llenwi ffurflen driniaeth (feuille de soins) a phresgripsiwn os oes angen. Mae angen y ffurflen i hawlio unrhyw ad-daliadau. Gallwch hawlio tua 70% o gost y driniaeth safonol yn ôl.

Triniaeth ysbyty
Os cewch eich derbyn i'r ysbyty, sicrhewch eich bod yn cyflwyno eich EHIC neu eich 'carte vitale' pan gewch eich derbyn. Bydd hyn yn eich arbed rhag talu unrhyw gostau ad-daladwy ar unwaith a bydd yn sicrhau mai dim ond y cyfraniad claf a dalwch.

Ar y cyfan, dim ond cyd-daliad o 20% y bydd rhaid i chi ei dalu tuag at eich triniaeth, weithiau bydd yn rhad ac am ddim. Bydd rhaid i gleifion mewnol dalu taliad dyddiol ysbyty o 16 Ewro. Os cewch eich derbyn i'r ysbyty ac os cewch unrhyw driniaeth feddygol fawr, codir cyfraniad cyfradd unffurf o €18 arnoch yn ychwanegol at y taliad dyddiol ysbyty neu'r cyd-daliad 20%.
Os cewch eich derbyn i ysbyty neu glinig preifat, ceisiwch sicrhau ei fod hefyd wedi cofrestru i ddarparu gofal iechyd gwladol.

Presgripsiynau
Dylech ddewis fferyllfa sy'n gweithio fel rhan o system gofal iechyd Ffrainc. Gyda'ch presgripsiwn, dylech gael ffurflen driniaeth (feuille de soins) – ni allwch hawlio ad-daliad hebddi.
Ni ellir ad-dalu meddyginiaethau ar bresgripsiwn oni bai eu bod wedi'u rhestru fel cynnyrch fferyllol ad-daladwy. Mae cyfraddau ad-dalu yn amrywio rhwng 15% a 100% o'r pris gwerthu.
Am fwy o wybodaeth am y meddyginiaethau y gallwch eu hawlio'n ôl cysylltwch â CLEISS.

Ambiwlans
Yn Ffrainc, mae'n rhaid i feddyg gadarnhau eich bod wirioneddol angen gwasanaeth ambiwlans. Fel arall, gallech ddefnyddio cerbyd meddygol ysgafn (vehicule sanitaire leger - VSL) i gyrraedd yr ysbyty. Mae taliadau ambiwlans yn ddyledus os ydych chi'n cael eich derbyn neu eich rhyddhau o'r ysbyty.

Ambiwlans Awyr
Mae argaeledd gwasanaethau ambiwlans awyr yn amrywio ac yn dibynnu ar natur yr argyfwng.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen

Cysylltwch â CLEISS i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Centre des Liaisons Europeennes et Internationales de Secruite Sociale (CLEISS)
11 Rue de la Tour des Dames
75436 Paris Cedex 09

Rhif Ffôn: 0033 1 45 26 33 41

Dialysis

Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Ffrainc. Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Ffrainc.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn Ffrainc

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Caiff ad-daliadau eu hawlio o'r swyddfa CPAM leol (Caisse Primaire D'Assurance Maladie) yn Ffrainc. Bydd angen i chi ddarparu'r ffurflen driniaeth (feuille de soins), copïau o dderbynebau a phresgripsiynau, copi o'ch EHIC, eich cyfeiriad preswyl a'ch manylion banc, gan gynnwys IBAN a BIC. Anfonir cadarnhad o'ch ad-daliad i'ch cyfeiriad cartref.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn Ffrainc, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad yn Ffrainc.

Byw yn Ffrainc

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i awdurdodau iechyd Ffrainc.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Ffrainc i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r swyddfa CPAM leol yn Ffrainc, a fydd yn rhoi cerdyn yswiriant iechyd i chi (carte vitale). Mae'r cerdyn yn dystiolaeth eich bod yn gallu hawlio gofal iechyd fel preswylydd Ffrainc. Mae gwybodaeth ar gael hefyd ar-lein ar wefan l'Assurance Maladie. Fodd bynnag, dim ond yn Ffrangeg mae'r wybodaeth ar gael.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Os ydych yn byw yn Ffrainc, cynghorir chi i gofrestru â meddyg. Mae eich hawl i ofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth neu ad-daliadau yn dibynnu arno. Nid oes angen i blant o dan 16 gofrestru a gallant fynd at feddyg o'u dewis.

Gweithio yn Ffrainc

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu â'r swyddfa CPAM leol yn Ffrainc, a fydd yn rhoi cerdyn yswiriant iechyd i chi (carte vitale). Mae'r cerdyn yn dystiolaeth fod hawl gennych gael gofal iechyd fel preswylydd Ffrainc. Mae gwybodaeth ar gael hefyd ar-lein ar wefan l'Assurance Maladie. Fodd bynnag, dim ond yn Ffrangeg mae'r wybodaeth ar gael.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Os ydych yn gweithio yn Ffrainc, cynghorir chi i gofrestru â meddyg. Mae eich hawl i ofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth neu ad-daliadau yn dibynnu arno. Nid oes angen i blant o dan 16 gofrestru a gallant fynd at feddyg o'u dewis.

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

NHS choices

Cael gofal iechyd yn yr Almaen

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr yr Almaen. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd. Nid yw unrhyw gostau ar gyfer gofal iechyd preifat yn ad-daladwy.

Os oes angen triniaeth feddygol neu ddeintyddol arnoch, dylech ymweld â meddyg neu ddeintydd wedi'i gontractio a dangos eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC). Bydd angen i chi ddewis cronfa yswiriant iechyd Almaenaidd yr hoffech iddi dalu am eich triniaeth. I wneud hyn, bydd angen i chi lenwi naill ai

- ffurflen 80 – os nad yw eich EHIC gyda chi
- neu ffurflen 81 os ydych chi'n dangos eich EHIC

Gofalwch rhag llofnodi ffurflen sy'n cytuno i driniaeth breifat.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn yr Almaen.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn yr Almaen

Mae angen i chi gysylltu ag unrhyw un o'r cronfeydd yswiriant iechyd 'Krankenkasse' fel

- Allgemeine Orstkrankenkassen (AOK)
- Betriebskrankenkassen (BKK)
- Ersatzkassen e.e. BEK, DAK, TK, etc.
- Innungskrankenkassen (IKK)
- Knappschaft neu
- Landwirtschaftliche Krankenkassen

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn yr Almaen, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Mae angen i chi sicrhau bod y meddyg a welwch yn trin cleifion o dan y cynllun gwladwriaethol. Dylai eich 'Krankenkasse' lleol allu rhoi rhestr lawn o feddygon cofrestredig i chi. Mae tâl gosodedig o €10 os ydych eisiau gweld meddyg, ac nid yw'n ad-daladwy.

Deintyddion

Mae angen i chi sicrhau bod y deintydd a welwch yn trin cleifion o dan y cynllun gwladwriaethol. Dylai eich 'Krankenkasse' lleol allu rhoi rhestr lawn o ddeintyddion cofrestredig i chi. Bydd unrhyw un o'r deintyddion ar y rhestr yn gallu eich trin. Nid oes rhaid i blant o dan 18 dalu ffi am driniaeth. Mae tâl gosodedig o €10 os hoffech weld meddyg, ac nid yw'n ad-daladwy.

Triniaeth ysbyty
Fel arfer bydd meddyg yn eich atgyfeirio at ysbyty. Mewn argyfwng, gallwch fynd yn syth at ysbyty wedi'i gontractio. Bydd yr ysbyty wedyn yn cysylltu â'r 'Krankenkasse' i gadarnhau y telir eich costau triniaeth. Bydd rhaid i chi dalu tâl gosodedig o €10 y dydd am fwyafswm o 28 diwrnod mewn blwyddyn. Nid oes rhaid i gleifion hyd at 18 oed dalu'r tâl hwn.

Presgripsiynau
Mae meddyginiaethau a rhwymynnau a roir ar bresgripsiwn gan eich meddyg teulu ar gael o unrhyw fferyllfa yn gyfnewid am y presgripsiwn. Bydd rhaid i chi dalu 10% o'r gost yn amodol ar dâl lleiaf o €5 a thâl mwyaf o €10. Nid yw'r costau hyn yn ad-daladwy. Ar gyfer mân gyffuriau a meddyginiaethau, fel poenladdwyr a moddion peswch, efallai codir y swm llawn arnoch. Nid oes rhaid i blant o dan 18 dalu ffi am bresgripsiynau.

Ambiwlans
Bydd ambiwlans yn cael ei gynnwys mewn gofal iechyd gwladol os oes angen meddygol amdani. Mae'n rhaid i'r claf dalu cost o €10.

Ambiwlans awyr
Bydd ambiwlans awyr yn cael ei gynnwys mewn gofal iechyd gwladol os oes angen meddygol amdano. Mae'n rhaid i'r claf dalu cost o €10.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch ag un o'r 'Krankenkasse' i wneud trefniadau cyn i chi adael y DU. Mae tâl am ddarparu ocsigen, ac nid yw'n ad-daladwy. Fel arall, gallwch ganfod meddyg neu arbenigwr ar-lein gan ddefnyddio 'Arztsuche in Deutschland' (www.http://www.kbv.de/arztsuche/178.html) . Fodd bynnag, dim ond yn Almaeneg mae'r safle ar gael.

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn yr Almaen. Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn yr Almaen.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn yr Almaen
Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Ar y cyfan, nid oes angen cael ad-daliad gan Krankenkasse yn yr Almaen, ond dylech gysylltu â hwy rhag ofn eich bod wedi talu cost lawn eich gofal.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad tra buoch chi yn yr Almaen, dylech gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau – Budd-daliadau Meddygol ar 0191 218 1999 ar unwaith pan ddychwelwch i'r DU. Fodd bynnag, ni fyddwch yn gymwys am ad-daliad os cawsoch eich trin yn breifat.

Byw yn yr Almaen

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i awdurdodau iechyd yr Almaen.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i'r Almaen i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gofrestru ag un o'r darparwyr yswiriant iechyd (Krankenkasse). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod. Bydd wedyn yn cyhoeddi cerdyn yswiriant iechyd cenedlaethol, sy'n eich galluogi i gael triniaeth feddygol.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn yr Almaen

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gofrestru ag un o'r darparwyr yswiriant iechyd (Krankenkasse). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod. Bydd wedyn yn cyhoeddi cerdyn yswiriant iechyd cenedlaethol, sy'n eich galluogi i gael triniaeth feddygol.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?
Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yng Ngwlad Groeg

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Gwlad Groeg. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol gan na fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yng Ngwlad Groeg.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yng Ngwlad Groeg

Bydd sefydliad nawdd cymdeithasol Gwlad Groeg (IKA-ETAM) yn gallu rhoi gwybodaeth.

IKA-ETAM
Odos Agiou Konstantinou 8
Athens
Gwlad Groeg

Rhif Ffôn: 0030 21 5200 555 -64 neu -184

Mae gwybodaeth ar gael hefyd ar-lein o wefan IKA-ETAM. Yma gallwch ganfod manylion cyswllt swyddfeydd lleol IKA-ETAM sy'n ymdrin â holl ranbarthau Gwlad Groeg.

NHS choices

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yng Ngwlad Groeg, ffoniwch 166. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon a deintyddion

Dylech geisio gweld meddyg neu ddeintydd IKA –ETAM er mwyn cael triniaeth yn rhad ac am ddim neu am gost is. Fodd bynnag, cofiwch gyflwyno eich EHIC ar y diwrnod.

Gallech hefyd weld meddyg neu ddeintydd preifat ond bydd rhaid i chi gyflwyno eich EHIC a thalu pob taliad yn syth. Gallwch hawlio'r costau'n ôl wedyn gan awdurdodau Gwlad Groeg. Cofiwch gadw eich holl dderbynebau.

Mae cost o 25% o ddarpariaeth tariff genedlaethol yn ddyledus gan y claf os bydd angen y ddarpariaeth arnoch ar gyfer prosthesis, teclynnau mawr neu driniaethau drud eraill.

Triniaeth ysbyty

Os cawsoch eich atgyfeirio at ysbyty neu glinig cyhoeddus gan feddyg IKA-ETAM, mae'n rhaid i chi ofyn am 'docyn', sef eich tystiolaeth o hawl i ofal iechyd yn y cynllun. Fodd bynnag, os nad oes 'tocyn' gennych, dylech ddangos eich EHIC pan gewch eich derbyn a gofyn i staff gweinyddu'r ysbyty gysylltu â'r swyddfa IKA.

Presgripsiynau

Mae unrhyw fferyllfa'n gallu dosbarthu meddyginiaethau sy'n cael eu rhagnodi gan feddyg IKA-ETAM. Codir 25% o gost claf arnoch. Gall costau amrywio gan ddibynnu ar y presgripsiwn.

Ambiwlans

Yn gyffredinol mae gwasanaethau ambiwlans brys yn rhad ac am ddim, ond efallai y gofynnir i chi gyfrannu ychydig bach at gludiant arferol.

Ambiwlans awyr
Mewn argyfwng gellir darparu ambiwlans awyr yn rhad ac am ddim drwy hofrenyddion EKAV (y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Cymorth Brys).

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r swyddfa IKA-ETAM yn y rhanbarth perthnasol yng Ngwlad Groeg i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

IKA-ETAM
Odos Agiou Konstantinou 8
Athens
Gwlad Groeg

Rhif Ffôn: 0030 21 5200 555 -64 neu -184

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yng Ngwlad Groeg . Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yng Ngwlad Groeg.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yng Ngwlad Groeg

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Cadwch y labeli adlynol o'r pecynnau meddyginiaeth sy'n perthyn i'ch presgripsiwn. Mae angen hawlio ad-daliadau drwy'r swyddfa IKA-ETAM sy'n ymdrin â'r rhanbarth rydych yn aros ynddo yn ystod eich ymweliad. Mae'n rhaid i chi ymgeisio am unrhyw ad-daliad cyn pen y terfyn amser a nodir gan eich meddyg IKE-ETAM.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yng Ngwlad Groeg, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad yng Ngwlad Groeg.

Byw yng Ngwlad Groeg

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi ymgeisio am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i awdurdodau iechyd Gwlad Groeg.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Wlad Groeg i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'ch swyddfa IKA leol a fydd yn cofrestru eich E121/E106. Ar ôl cwblhau'r cofrestru, bydd yn rhoi llyfryn iechyd IKA i chi, sef eich hawl i ofal iechyd yng Ngwlad Groeg.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yng Ngwlad Groeg

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106
Bydd angen i chi gysylltu â'ch swyddfa IKA leol a fydd yn cofrestru eich E106. Ar ôl cwblhau'r cofrestru, bydd yn rhoi llyfryn iechyd IKA i chi, sef eich hawl i ofal iechyd yng Ngwlad Groeg.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Hwngari

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Hwngari. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol gan na fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Nid yw gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn Hwngari.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Hwngari

Cysylltwch â'r 'Orszagos Egeszsegbiztositasi Penztar' (Cronfa Yswiriant Iechyd Gwladol Hwngari) am wybodaeth.

Orszagos Egeszsegbiztositasi Penztar(OEP)
Yr Adran Cysylltiadau Rhyngwladol ac Integreiddio UE,
Váci Street 73/a
1139 Budapest

Ffôn: 0036 1 350 1618

E-bost: sajto@oep.hu neu nemzetk@oep.hu

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Hwngari, ffoniwch 104. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Dim ond gan feddygfeydd sydd wedi'u contractio â'r Orszagos Egeszsegbiztositasi (OEP) y cewch driniaeth feddygol. Fodd bynnag, codir ffi o HUF 600 am bob ymweliad.

Mae ffi o HUF 1000 yn daladwy am unrhyw driniaeth a roddwyd yn ystod y nos neu y tu allan i oriau swyddfa. Mae rhai canolfannau meddygol (szakrendelo) yn codi HUF 1000 os oes angen triniaeth arnoch heb atgyfeiriad gan feddyg,

Mae rhai eithriadau i'r taliad, gan gynnwys plant o dan 18 oed, triniaeth ar gyfer beichiogrwydd a geni plant, a rhywfaint o ofal meddygol brys.

Deintyddion

Dim ond gan ddeintydd sydd wedi'i gontractio â'r OEP y cewch driniaeth ddeintyddol.

Triniaeth ysbyty

Darperir triniaeth ysbyty drwy atgyfeiriad gan feddyg (háziorvos). Bydd gofyn i chi dalu ffi o HUF 300 am bob ymweliad ar gyfer triniaeth claf allanol. Nid oes angen atgyfeiriad gan feddyg arnoch mewn argyfwng.

Yn gyffredinol, codir HUF 300 y dydd am driniaeth claf mewnol. Bydd hyn yn berthnasol am yr 20 diwrnod cyntaf o driniaeth.

Codir taliad ychwanegol o 30% arnoch os cafwyd triniaeth ysbyty heb atgyfeiriad gan feddyg, wrth ddefnyddio darparwr gofal iechyd heblaw'r un a nodwyd yn yr atgyfeiriad, neu os dewiswch gael eich trin gan feddyg nad yw ar ddyletswydd adeg y driniaeth. Mwyafswm y ffi y gellir ei chodi arnoch yw HUF 100, 000.

Presgripsiynau
Yn gyffredinol, mae meddyginiaethau ar bresgripsiwn ar gael am ffi o HUF 300. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar y feddyginiaeth dan sylw, efallai codir ffi is arnoch neu efallai bydd rhaid i chi dalu pris llawn y presgripsiwn.

Ambiwlans
Mae'n rhad ac am ddim teithio mewn ambiwlans.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw
Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r OEP i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Orszagos Egeszsegbiztositasi Penztar (OEP)
Yr Adran Cysylltiadau Rhyngwladol ac Integreiddio UE,
Váci Street 73/a
1139 Budapest

Ffôn: 0036 1 350 1618

Mae therapi ocsigen yn rhad ac am ddim i breswylwyr y DU sydd angen triniaeth feddygol angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod gennych bresgripsiwn gan feddyg neu ysbyty. Nid oes siambrau hyperbarig ar gael yn Hwngari.

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Hwngari. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Hwngari.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn Hwngari

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Nid oes unrhyw ad-daliadau yn Hwngari, oherwydd dim ond y gyfran o'ch costau gofal iechyd na ellir ei had-dalu sy'n cael ei chodi arnoch.

Byw yn Hwngari

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi ymgeisio am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i awdurdodau iechyd Hwngari.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Hwngari i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Cysylltwch â'r OEP (cronfa yswiriant iechyd ranbarthol). Mae'r OEP yn rhoi rhif yswiriant Hwngaraidd (TAJ-szám), y gellir ei ddefnyddio'n uniongyrchol i gael gofal iechyd. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Gallwch gofrestru gydag unrhyw feddyg sydd wedi'i gontractio â'r OEP.

Gweithio yn Hwngari

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106
Cysylltwch â'r OEP (cronfa yswiriant iechyd ranbarthol). Mae'r OEP yn rhoi rhif yswiriant Hwngaraidd (TAJ-szám), y gellir ei ddefnyddio'n uniongyrchol i gael gofal iechyd. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Gallwch gofrestru ag unrhyw feddyg sydd wedi'i gontractio â'r OEP.

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yng Ngwlad yr Iâ

Gwladolion heblaw gwladolion yr AEE

Dim ond ar gyfer triniaeth frys y mae preswylwyr y DU sydd heb genedligrwydd DU, UE, AEE neu'r Swistir wedi'u diogelu yng Ngwlad yr Iâ.

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Gwlad yr Iâ. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol gan na fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.
Nid yw unrhyw gostau ar gyfer gofal iechyd preifat yn ad-daladwy.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yng Ngwlad yr Iâ

Bydd y Tryggingastofnun Rikisins (sefydliad nawdd cymdeithasol) yn gallu rhoi gwybodaeth i chi.

Tryggingastofnun Rikisins
Laugavegi 114
IS-105 Reykjavik

Rhif ffôn: 00354 560 4400

NHS choices

Gwefan: www.tr.is/english

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yng Ngwlad yr Iâ, ffoniwch 1779. Gallwch hefyd ddefnyddio 112, sef y rhif cyfatebol i'r Undeb Ewropeaidd. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Darperir gofal meddygol mewn canolfannau iechyd, sydd ar gael yn holl ranbarthau Gwlad yr Iâ ac sydd ar agor rhwng 8am a 4pm. Codir IKR 1,000 neu IKR 500 arnoch os ydych yn cael pensiwn y wladwriaeth. Nid oes cost i blant o dan 18 oed.

Gyda'r nos ac ar benwythnosau, mae triniaeth yn ardal Reykjavik ar gael yng nghanolfan 'Læknavaktin'.

Canolfan 'Læknavaktin'
Smáratorg 1,
Kópavogur

Rhif ffôn: 1779

Deintyddion

Darperir triniaeth ddeintyddol mewn canolfannau iechyd. Mae plant o dan 18 oed, pensiynwyr y wladwriaeth a'r rheini sy'n cael budd-daliadau analluogrwydd yn gallu hawlio ad-daliad rhannol am driniaeth. Fodd bynnag, mae angen i chi roi prawf o'ch hawl i ad-daliad.

Triniaeth ysbyty

Bydd angen atgyfeiriad gan feddyg arnoch i gael eich derbyn i ysbyty. Dim ond mewn argyfwng y mae'n bosibl derbyn rhywun ar unwaith. Ar y cyfan, nid oes tâl am driniaeth claf mewnol. Fodd bynnag, codir IKR 4,000 arnoch am driniaeth claf allanol.

Presgripsiynau
Gallwch fynd at unrhyw fferyllfa yng Ngwlad yr Iâ. Ynghyd â'ch presgripsiwn, dylech ddarparu prawf o'ch hawl i ofal iechyd y wladwriaeth. Mae costau presgripsiwn yn amrywio o 0% i 100% yn unol â'r categorïau presgripsiwn safonol. Os na allwch ddarparu prawf o hawl, e.e. EHIC neu ffurflen hawl arall os ydych yn byw yng Ngwlad yr Iâ, codir y pris llawn arnoch. Nid yw costau presgripsiwn yn ad-daladwy.

Ambiwlans
Codir pris safonol am wasanaethau ambiwlans ac nid yw'n ad-daladwy. Os nad ydych yn dangos eich EHIC neu ffurflen hawl arall os ydych yn byw yng Ngwlad yr Iâ, codir y pris llawn arnoch.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw
Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch ag un o'r gwasanaethau canlynol i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Canolfan Technoleg Gynorthwyol y Weinyddiaeth Yswiriant Cymdeithasol
Tryggingastofnun Ríkisins,
Hjálpartækjamiðstöð
Smiðjuvegur 28,
200 Kópavogur

Rhif ffôn: 00354 560 46 00
neu

Tryggingastofnun, Pulmonary services
'Tryggingastofnun, súrefnisþjónustan'
Ysbyty Prifysgol Landspitali,
Uned A-3,
Fossvogur, Reykjavík.

Rhif ffôn: 00354 543 6049/6040

Pobl gyswllt: Stella Hrafnkelsdóttir, Nyrs RN BSc, Rósa Karlsdóttir, Nyrs Rn BSc

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yng Ngwlad yr Iâ. Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yng Ngwlad yr Iâ.

Uned Ddialysis Ysbyty Prifysgol Landspitali,
Eiriksgata 5,
101 Reykjavík

Rhif Ffôn: 00354 543 63 11

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yng Ngwlad yr Iâ

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Caiff ad-daliadau eu hawlio gan swyddfa Tryggingastofnun Rikisins yn Reykjavik. Bydd angen i chi anfon eich derbynebau gwreiddiol gyda'ch hawliad a phrawf o'ch hawl. Cofiwch gadw copïau o bopeth a anfonwch ar gyfer eich cofnodion. Nid yw cyfraniadau claf safonol yn ad-daladwy.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yng Ngwlad yr Iâ, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad yng Ngwlad yr Iâ.

Byw yng Ngwlad yr Iâ

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yng Ngwlad yr Iâ.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Wlad yr Iâ i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r swyddfa Tryggingastofnun Rikisins yn Reykjavik. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yng Ngwlad yr Iâ

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106
Bydd angen i chi gysylltu â'r swyddfa Tryggingastofnun Rikisins yn Reykjavik. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

NHS choices

Cael gofal iechyd yn Iwerddon

Cytundebau arbennig

Mae cytundeb rhwng y DU ac awdurdodau Iwerddon, sy'n golygu nad oes angen ffurflenni E106, E121 na'r EHIC ar breswylwyr y DU sy'n ymweld, gweithio neu'n byw yn Iwerddon.

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Iwerddon. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol gan na fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn Iwerddon.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Iwerddon

Cysylltwch â Gweithrediaeth y Gwasanaeth Iechyd (HSE) am wybodaeth cyn gadael y DU.

Gweithrediaeth y Gwasanaeth Iechyd (HSE)
Oak House,
Millennium Park,
Naas,
Co. Kildare

Rhif ffôn: 00353 (0)45 880400

neu

Weithdrediaeth y Gwasanaeth Iechyd (HSE)
Parkgate St. Business Centre,
Dulyn 8

Rhif ffôn: 00353 (0)1 635 2500

Gwefan: www.hse.ie

Mae gwybodaeth ar gael hefyd o'r wefan Gwybodaeth i Ddinasyddion (http://www.citizensinformation.ie/categories).

Chwiliwch am eich swyddfa HSE leol:

HSE Dulyn/y Gogledd Ddwyrain
Rathdown Road
Dulyn 7

Rhif ffôn: 00 354 1 882 5000

HSE Dulyn/Canol Leinster
Y Swyddfa iechyd leol
Tivoli Road
Dun Laoghaire
Co. Dublin

Rhif ffôn: 00 354 1 284 3579

HSE Gorllewin
Swyddfa Iechyd Leol
Community Services
25 Newcastle Road
Galway

Rhif ffôn 00 354 91 523 122

HSE De
Swyddfa iechyd leol
Abbeycourt House
George's Quay
Cork

Rhif ffôn 00 354 21 4965 511

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn lwerddon, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Cysylltwch ag unrhyw feddyg sydd wedi'i gontractio i'r cynllun Gwasanaeth Ad-dalu Gofal Sylfaenol (PCRS). Darperir triniaeth yn rhad ac am ddim gan feddygon PCRS. Gallwch gael manylion meddygon PCRS gan swyddfa leol Gweithrediaeth y Gwasanaeth Iechyd (HSE). Os nad ydych yn siŵr a yw eich meddyg wedi'i gontractio i'r PCRS, eglurwch eich bod eisiau triniaeth o dan y system iechyd cyhoeddus.

Darperir gwasanaethau y tu allan i oriau gan gydweithfeydd meddygon teulu mewn cydweithrediad â'r HSE. Rhestrir rhai meddygfeydd y tu allan i oriau swyddfa yma:

Ardal Orllewinol - West Doc: 1850 365000

Ardal Gorllewin y Canolbarth - Shannon Doc: 1850 212999
Ardal Ddeheuol - South Doc GP Co-op: 1850 335999
Ardal y De-Ddwyrain (gan gynnwys Wicklow) - Care Doc: 1850 334999

Gogledd Dulyn - D-DOC: 1850 22 44 77
Dub Doc: 01 4545607
Dulyn - DL Doc: 01 6639869
Dulyn - East Doc: 01 2094021
Dulyn - Luke Doc: 01 406 5158

Kildare - K Doc: 1890 599362
Ardal y Canolbarth – MI Doc: 1850 302702
Ardal y Gogledd Ddwyrain - NE Doc: 1850 777911
Leitrim North Roscommon Donegal –
Now Doc: 1850 400911

Deintyddion
Mae triniaeth ddeintyddol frys, gan gynnwys atgyweirio dannedd gosod, ar gael gan unrhyw ddeintydd sydd wedi'i gontractio i HSE. Cysylltwch â'ch HSE lleol am fanylion deintyddion wedi'u contractio neu glinigau HSE.

Triniaeth ysbyty
Mewn argyfwng ewch yn syth at uned ddamweiniau ac achosion brys unrhyw ysbyty cyhoeddus. Ni fydd unrhyw daliad os oes hawl gennych i gael eich trin o dan reoliadau'r UE. Mae'n rhaid i driniaeth a gynllunnir yn lwerddon mewn ysbyty cyhoeddus gael ei threfnu gan feddyg, arbenigwr neu ymgynghorydd wedi'i gontractio i'r system gyhoeddus. Eto, bydd cleifion sy'n gymwys o dan reoliadau'r UE yn cael eu trin yn rhad ac am ddim.

Arbenigwyr
Bydd angen atgyfeiriad gan feddyg arnoch am unrhyw driniaeth arbenigol. Rhowch wybod i'ch meddyg ymlaen llaw nad ydych eisiau cael eich trin fel claf preifat. Darperir triniaeth yn y system iechyd cyhoeddus yn rhad ac am ddim. Os gwelwch arbenigwr neu ymgynghorydd fel claf preifat, codir tâl arnoch ac nid yw'r costau hynny'n ad-daladwy.

Presgripsiynau
Mae'n rhaid i feddyginiaethau ar bresgripsiwn gael eu dosbarthu gan feddyg yn y PCRS a dylai eich presgripsiwn nodi bod y feddyginiaeth am gael ei darparu'n rhad ac am ddim.

Ambiwlans
Dim gwybodaeth ar gael

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'ch Gweithrediaeth Gwasanaeth Iechyd leol i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Iwerddon. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Iwerddon.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn Iwerddon

Mae cytundeb rhwng y DU ac awdurdodau Iwerddon, sy'n golygu nad oes angen y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) ar breswylwyr y DU sy'n ymweld, gweithio neu'n byw yn Iwerddon.

Sut i hawlio ad-daliadau
Caiff ad-daliadau eu hawlio'n syth o swyddfeydd Gweithrediaeth y Gwasanaeth Iechyd (HSE). Bydd angen i chi anfon eich derbynebau gwreiddiol gyda'ch hawliad. Cofiwch gadw copïau o bopeth a anfonwch ar gyfer eich cofnodion.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn Iwerddon, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad yn Iwerddon.

Byw yn Iwerddon

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Nid oes angen E121 nac E106 arnoch i gael gofal iechyd yn Iwerddon. Yn hytrach, cysylltwch â'ch Gweithrediaeth Gwasanaeth Iechyd leol am wybodaeth. Bydd angen prawf o'ch pensiwn yn y DU arnoch.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn Iwerddon

Sut i gofrestru eich E106

Nid oes angen ymgeisio am E106 i gael gofal iechyd yn Iwerddon. Yn hytrach, cysylltwch â'ch swyddfa Gweithrediaeth Gwasanaeth Iechyd leol am wybodaeth gyda phrawf o'ch statws.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Darllenwch yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn yr Eidal

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin fel preswylydd yr Eidal. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol gan na fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn yr Eidal.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn yr Eidal

Dylai fod yr awdurdodau iechyd lleol 'Azienda Unità Sanitaria Locale', neu ASL, yn gallu rhoi gwybodaeth i chi. Cysylltwch â'r swyddfa pan fyddwch yn cyrraedd yr Eidal. Mae manylion cyswllt ar gael yn gyffredinol mewn cyfeiriaduron ffôn, derbynfeydd gwesty, fferyllfeydd neu bapurau newydd lleol.
Gallwch hefyd gysylltu â Gweinyddiaeth Iechyd yr Eidal am ymholiadau cyffredinol cyn gadael y DU.

Ministero della salute
Via Giorgio Ribotta 5
00144 - Roma

Rhif ffôn: 0039 06 5994 1

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn yr Eidal, ffoniwch 118. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Dylech weld meddyg sydd wedi cofrestru â gwasanaeth iechyd gwladol yr Eidal, (Servizio Sanitario Nazionale – SSN) gan fod eu gwasanaethau fel arfer yn rhad ac am ddim.

Mae meddygfeydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae amseroedd agor yn gallu amrywio. Fel arfer mae meddygfeydd ar agor ar benwythnosau ac yn ystod yr wythnos rhwng 8pm ac 8am. Dylech dalu unrhyw daliadau, cadw'r derbynebau gwreiddiol a gwneud cais yn yr ASL lleol am unrhyw ad-daliad.

Deintyddion

Mae'r rhan fwyaf o ddeintyddion yn gweithredu'n breifat. Er mwyn cael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth, dylech chwilio am ysbyty sy'n cael ei redeg gan SSN neu ymweld â chanolfan iechyd a reolir gan ASN sy'n gallu darparu deintyddion.

Triniaeth ysbyty

Gall yr ASL gyflenwi rhestr o ysbytai SSN neu ysbytai preifat sy'n gweithredu o dan y cynllun gwladol. Bydd costau am deithio mewn ambiwlans neu feddyginiaethau rhagnodedig mewn ysbytai yn amrywio gan ddibynnu ymhle yn yr Eidal rydych chi'n cael triniaeth. Os na allwch gysylltu â'r ASL ymlaen llaw, dangoswch eich EHIC pan gewch eich derbyn a gofyn i staff gweinyddu'r ysbyty gysylltu â hwy.

Presgripsiynau

Bydd angen i chi gyflwyno eich presgripsiwn ac EHIC yn y fferyllfa. Yn gyffredinol, mae meddyginiaethau'n rhad ac am ddim, ond gellir codi ffi safonol am rai ohonynt ac nid yw hyn yn ad-daladwy. Nid yw meddyginiaethau a brynir dros y cownter yn ad-daladwy.

Ambiwlans
Mae gwasanaethau brys ar gael ac fe'u gelwir yn Guardia Medica. Efallai y bydd rhaid talu cyfran o gost teithio mewn ambiwlans.

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn yr Eidal. Bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn yr Eidal.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn yr Eidal

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Caiff ad-daliadau eu hawlio o'r swyddfeydd ASL lleol yn yr Eidal.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn yr Eidal, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad yn yr Eidal.

Byw yn yr Eidal

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i awdurdodau iechyd yr Eidal.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i'r Eidal i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'ch swyddfa ASL leol. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn yr Eidal

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu â'ch swyddfa ASL leol. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Latfia

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Latfia. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol gan na fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Latfia

Cysylltwch â'r 'Veselības Obligātās Apdrošinaāšanas Valsts Aģentūra -VOAVA' (yr Asiantaeth Wladol ar gyfer Yswiriant Iechyd Gorfodol) am wybodaeth.

Veselības Obligātās Apdrošinaāšanas Valsts Aģentūra (VOAVA)
International Service Department
Cēsu 31/6 Riga
LV-1012

Rhif ffôn: 00371 704 3767/3700
E-bost: eiropa@voava.gov.lv
Gwe: www.voava.gov.lv

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Latfia, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Codir ffi safonol arnoch am weld meddyg. Ni chodir tâl ar blant o dan 18 na menywod beichiog sy'n cael triniaeth mewn perthynas â'u beichiogrwydd. Mae ffioedd cleifion yn ddyledus fel a ganlyn:

- Archwiliadau claf allanol gan feddyg Ls 0.50
- Arbenigwr Ls 2.00

Os oes angen gweld arbenigwr arnoch, bydd angen atgyfeiriad gan feddyg arnoch.

Deintyddion

Nid yw triniaeth ddeintyddol yn cael ei chynnwys, heblaw i blant hyd at 18 oed sy'n ei chael yn rhad ac am ddim.

Triniaeth ysbyty

Codir rhwng Ls 0.50 a Ls 9.00 am archwiliadau diagnostig fel claf allanol.
Y ffi am driniaeth claf mewnol gydag atgyfeiriad gan feddyg yw Ls 5.00 y dydd ond heb fod yn fwy na Ls 80.00 am achos nac yn fwy na Ls 150.00 y flwyddyn. Mae triniaeth claf mewnol mewn canolfannau dydd yn Ls 0.50 y dydd. Codir taliadau ychwanegol am archwiliadau diagnostig.
Nid yw ffioedd claf yn ddyledus am ofal brys na gofal dwys, i blant o dan 18, mewn achosion mewn perthynas â beichiogrwydd a geni plant nac am ddialysis.

Presgripsiynau

Mae cost meddyginiaethau'n cael ei thalu'n rhannol os cânt eu rhagnodi gan feddyg.

Ambiwlans
Ni fydd unrhyw dâl am ambiwlans os yw'r gwasanaeth cenedlaethol triniaeth feddygol frys yn gofyn amdani. Nid yw costau cludiant eraill wedi'u cynnwys.

Ambiwlans awyr
Nid oes unrhyw gost yn daladwy.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r VOAVA (yr Asiantaeth Wladol am Yswiriant Iechyd Gorfodol) i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Veselības Obligātās Apdrošinaāšanas Valsts Aģentūra (VOAVA)
Yr Adran Gwasanaeth Rhyngwladol
Cēsu 31/6 Riga
LV-1012

Rhif ffôn: 00371 704 3767/3700
E-bost: eiropa@voava.gov.lv

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Latfia. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Latfia. Nid oes unrhyw gost am ddialysis i gleifion cronig.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn Latfia

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Nid oes system ad-dalu ar waith yn Latfia. Dim ond swm eich cyfraniad eich hun y dylid ei godi arnoch. Os nad oes gan y darparwr gofal iechyd gontract â'r VOAVA neu os na allwch ddarparu eich EHIC, codir tâl arnoch fel claf preifat. Ni fydd y costau hyn yn ad-daladwy.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn Latfia, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) neu pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd llawer mwy o amser na hawlio ad-daliad yn Latfia.

Byw yn Latfia

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Latfia.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Latfia i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r VOAVA (Asiantaeth Wladol ar gyfer Yswiriant Iechyd Gorfodol). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Gallwch ganfod rhestr o feddygon ar wefan VOAVA.

Gweithio yn Latfia

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu â'r VOAVA (yr Asiantaeth Wladol ar gyfer Yswiriant Iechyd Gorfodol). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

NHS choices

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Gallwch ganfod rhestr o feddygon ar wefan VOAVA.

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Liechtenstein

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Liechtenstein. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol gan na fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Nid yw gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn Liechtenstein.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Liechtenstein

Cysylltwch â'r 'Amt fur Gesundheit' (Y Swyddfa Iechyd Genedlaethol) am wybodaeth.

Amt fur Gesundheit
Äulestrasse 51
9490 Vaduz

Rhif ffôn: 00 423 236 7344
Gwefan: www.ag.llv.li (cynnwys ar gael yn Almaeneg yn unig)

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Liechtenstein, ffoniwch 144. Gallwch hefyd ddefnyddio 112, sef y rhif cyfatebol i'r Undeb Ewropeaidd. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Gallwch ymweld ag unrhyw feddyg sy'n gweithio o dan y cynllun iechyd cyhoeddus. Codir CHF 67.00 arnoch. Codir tâl is o CHF 33.50 ar blant a phensiynwyr.

Deintyddion

Nid oes unrhyw ofal deintyddol gwladwriaethol yn Liechtenstein a bydd rhaid i chi dalu'r costau llawn fel triniaeth breifat.

Triniaeth ysbyty

Dim ond un ysbyty sydd yn Liechtenstein. Yn gyffredinol, mae angen i'r Amt fur Gesundheit (y Swyddfa Iechyd Genedlaethol) gymeradwyo eich derbyn, heblaw ar gyfer triniaeth frys. Codir CHF 67.00 arnoch. Eto, codir tâl is o CHF 33.50 ar blant a phensiynwyr.

Arbenigwyr

Bydd angen atgyfeiriad gan feddyg arnoch am unrhyw driniaeth neu ymgynghoriad arbenigol.

Presgripsiynau

Gallwch gael unrhyw feddyginiaethau a ddarperir gan ofal iechyd y wladwriaeth.

Ambiwlans
Mae unrhyw gostau teithio mewn ambiwlans hyd at CHF 500 wedi'u cynnwys. Bydd angen i chi dalu unrhyw gostau uwchlaw'r ffigur hwnnw.

Ambiwlans awyr
Mae defnyddio ambiwlans awyr wedi'i gynnwys hyd at fwyafswm cost o CHF 1000. Bydd angen i chi dalu unrhyw gostau uwchlaw'r ffigur hwnnw.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r Amt fur Gesundheit (y Swyddfa Iechyd Genedlaethol) i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Amt fur Gesundheit
Äulestrasse 51
9490 Vaduz

Rhif ffôn: 00 423 236 7344

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Liechtenstein. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Liechtenstein.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn Liechtenstein

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Ni thalir unrhyw ad-daliadau yn Liechtenstein, gan mai dim ond y gyfran o'ch costau gofal iechyd yr ydych yn parhau'n gyfrifol amdanynt y dylid ei chodi arnoch.

Byw yn Liechtenstein

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Liechtenstein.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Liechtenstein i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r Amt fur Gesundheit (y Swyddfa Iechyd Genedlaethol). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

NHS choices

Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn Liechtenstein

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu â'r Amt fur Gesundheit (y Swyddfa Iechyd Genedlaethol). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Lithiwania

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Lithiwania. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol gan na fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Lithiwania

Mae'r 'Valstybinė ligonių kasa - VLK' (y Gronfa Cleifion Wladol) yn gyfrifol am drefnu gofal iechyd yn Lithiwania. Mae pum cronfa cleifion diriogaethol yn darparu gofal iechyd mewn gwahanol ardaloedd ledled y wlad. Os darperir triniaeth feddygol gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd heb gontract â chronfa diriogaethol, bydd yn rhaid i chi dalu. Nid yw unrhyw gostau ar gyfer gofal iechyd yn ad-daladwy.
Cysylltwch â'r Valstybinė ligonių kasa (y Gronfa Cleifion Wladol) am wybodaeth bellach.

Valstybinė ligonių kasa (VLK)
Kalvarijų str. 147
LT – 08221 Vilnius

Rhif ffôn: 00370 5 236 41 00
E-bost: vlk@vlk.lt
Mae gwybodaeth am ddarparwyr gofal iechyd yn Lithiwania hefyd ar gael ar-lein o wefan 'VLK'.

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Lithiwania, ffoniwch 03. Gallwch hefyd ddefnyddio 112, sef y rhif cyfwerth ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Gallwch weld unrhyw feddyg sy'n gweithio gyda'r Valstybinė ligonių kasa - VLK. Mae triniaeth yn rhad ac am ddim os gallwch gyflwyno eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn ogystal â'ch pasbort. Nid yw unrhyw gostau ar gyfer gofal iechyd preifat yn ad-daladwy.

Deintyddion

Gallwch weld unrhyw ddeintyddion sy'n gweithio gyda'r Valstybinė ligonių kasa - VLK. Ar y cyfan, mae eich EHIC yn cynnwys gofal deintyddol, heblaw'r deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer triniaeth e.e. llenwadau. Fodd bynnag, mae rhyw 80% o'r deintyddion yn Lithwania yn ymarfer yn breifat. Ni fydd costau am eu gwasanaethau'n cael eu had-dalu.

Triniaeth ysbyty

Mewn argyfwng, gallwch ymweld ag unrhyw adran achosion brys yn Lithiwania. Cyflwynwch eich EHIC a'ch pasbort pan gewch eich derbyn i'r ysbyty. Ym mhob achos arall, bydd rhaid i chi gael atgyfeiriad gan feddyg. Os byddwch yn chwilio am driniaeth mewn ysbyty heb atgyfeiriad, bydd yn rhaid i chi dalu'r costau llawn, ac nid yw'r rhain yn ad-daladwy.

Presgripsiynau

Mae Gweinyddiaeth Iechyd Lithiwania wedi cymeradwyo rhestr brisiau o feddyginiaethau, lle nodir prisiau a chyd-daliadau sylfaenol. Caiff prisiau sylfaenol eu had-dalu gan y VLK ac mae cleifion yn talu'r cyd-daliadau. Os nad yw cyffur penodol wedi'i gynnwys yn y rhestr brisiau, bydd yn rhaid i chi dalu'r pris llawn eich hun. Nid yw'r costau hyn yn ad-daladwy.

Ambiwlans
Mae cludiant mewn ambiwlans yn rhad ac am ddim.

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Nid yw therapi ocsigen yn cael ei darparu o dan y system iechyd wladol yn Lithiwania a bydd yn rhaid i chi dalu cost lawn y driniaeth. Fodd bynnag, dylech gysylltu â'r Valstybinė ligonių kasa (y Gronfa Cleifion Wladol) i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Valstybinė ligonių kasa (VLK)
Kalvarijų str. 147
LT – 08221 Vilnius

Rhif ffôn: 00370 5 236 41 00
E-bost: vlk@vlk.lt

Dialysis

Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Lithiwania. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Lithiwania.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn Lithiwania

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Ar y cyfan, dim ond am eich cyfran chi o gostau'r driniaeth y codir tâl arnoch. Nid yw'r costau hyn yn ad-daladwy. Os nad yw eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) gennych pan ydych yn chwilio am driniaeth, codir tâl arnoch. Dylech ddangos y derbynebau gwreiddiol wrth geisio ad-daliad.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn Lithiwania, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd llawer mwy o amser na hawlio ad-daliad yn Lithwania.

Byw yn Lithiwania

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Lithiwania.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Lithiwania i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r Valstybinė ligonių kasa - VLK (y Gronfa Wladol i Gleifion). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Gallwch gofrestru ag unrhyw feddyg sy'n gweithio o dan y VLK.

Gweithio yn Lithiwania
Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106
Bydd angen i chi gysylltu â'r Valstybinė ligonių kasa - VLK (y Gronfa Wladol i Gleifion). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Gallwch gofrestru ag unrhyw feddyg sy'n gweithio o dan y VLK.

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?
Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Lwcsembwrg

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Lwcsembwrg. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol gan na fyddwch wedi'ch diogelu am ofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Lwcsembwrg

Cysylltwch â Caisse de Maladie des Ouvriers -CMO (Cronfa Yswiriant Salwch i Weithwyr Llaw) am wybodaeth.

Caisse de Maladie des Ouvriers -CMO
125 Route d'Esch
L-2973 Luxembourg Ville

Rhif ffôn: 00352 49 83 311
E-bost: ucm@secu.lu

Mae gwybodaeth yn Saesneg ar gael ar-lein o'r wefan 'Organismes de sécurité sociale' (nawdd cymdeithasol).
http://www.secu.lu/informations_touristes/soins_Luxembourg_anglais.htm

Rhifau argyfwng

Os byddwch mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Lwcsembwrg, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Mae'n rhaid i chi bob amser dalu yn y lle cyntaf, ac wedyn rydych yn hawlio ad-daliadau gan y Caisse de Maladie des Ouvriers - CMO (Cronfa Yswiriant Salwch i Weithwyr Llaw), heblaw am arosiadau yn yr ysbyty a meddyginiaethau, sy'n cael eu cefnogi'n uniongyrchol gan y CMO.

Meddygon

Gallwch fynd at unrhyw feddyg gan eu bod i gyd wedi'u cynnwys yn y CMO.

Arbenigwr

Gallwch fynd yn syth at arbenigwr, ond mae'n rhaid i chi gyflwyno eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC).

Deintyddion

Gallwch fynd at unrhyw ddeintydd gan eu bod i gyd wedi'u cynnwys yn y CMO. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi gael cymeradwyaeth y CMO ymlaen llaw ar gyfer rhai triniaethau deintyddol. Gellir hepgor ffioedd am driniaeth ddeintyddol mewn rhai amgylchiadau. Nid oes angen cael atgyfeiriad am driniaeth.

Triniaeth ysbyty
Mae gan bob ysbyty yn Lwcsembwrg gontract â'r CMO. Bydd yn rhaid i chi gyflwyno eich EHIC pan gewch eich derbyn i'r ysbyty beth bynnag.
Mae triniaeth mewn ysbyty yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gleifion mewnol dalu ffi ddyddiol safonol o 12 Ewro.
Mae plant o dan 18 yn rhad ac am ddim. Efallai bydd swm yn daladwy hefyd yn uniongyrchol i'r meddyg sy'n eich trin.

Presgripsiynau
Ewch â'ch presgripsiwn at unrhyw fferyllfa yn Lwcsembwrg. Mae'n rhaid i rai presgripsiynau gael eu hawdurdodi gan y CMO cyn y cewch chi'r feddyginiaeth. Bydd yr ad-daliad sy'n ddyledus yn amrywio, gan ddibynnu ar y feddyginiaeth sydd ei hangen. Dylech felly holi'r meddyg a oes angen i chi gysylltu â'r CMO.

Ambiwlans
Mae cludiant ambiwlans yn rhad ac am ddim mewn argyfwng. Ym mhob achos arall, bydd rhaid i chi dalu ffi nad yw'n ad-daladwy.

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw
Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r Caisse de Maladie des Ouvriers -CMO (Cronfa Yswiriant Salwch i Weithwyr Llaw) i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Caisse de Maladie des Ouvriers -CMO
125 Route d'Esch
L-2973 Luxembourg Ville

Rhif ffôn: 00352 49 83 311
E-bost: ucm@secu.lu

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Lwcsembwrg. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Lwcsembwrg.

Gofal diabetig arferol, fel profion gwaed
Mae profion gwaed yn cael eu cynnwys mewn yswiriant gofal iechyd, ond mae angen presgripsiwn.

Hamdden neu fusnes - defnyddio eich EHIC yn Lwcsembwrg

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad ydych yn ymweld yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Caiff ad-daliadau eu hawlio'n uniongyrchol o'r Caisse de Maladie des Ouvriers -CMO (Cronfa Yswiriant Salwch i Weithwyr Llaw). Bydd angen i chi anfon eich derbynebau gwreiddiol gyda'r hawliad. Cofiwch gadw copïau o bopeth a anfonwch ar gyfer eich cofnodion.

Os bu'n rhaid i chi dalu am eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn Lwcsembwrg, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad yn Lwcsembwrg.

Byw yn Lwcsembwrg

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Lwcsembwrg.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Lwcsembwrg i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r Caisse de Maladie des Ouvriers -CMO (Cronfa Yswiriant Salwch i Weithwyr Llaw). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Nid oes rhaid i chi gofrestru â meddyg na deintydd. Rydych chi'n rhydd i ddewis unrhyw ddarparwr gofal iechyd.

Gweithio yn Lwcsembwrg

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi

Sut i gofrestru eich E106
Bydd angen i chi gysylltu â'r Caisse de Maladie des Ouvriers -CMO (Cronfa Yswiriant Salwch i Weithwyr Llaw). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Nid oes rhaid i chi gofrestru â meddyg na deintydd. Rydych chi'n rhydd i ddewis unrhyw ddarparwr gofal iechyd.

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?
Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd ym Malta

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Malta. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu ym Malta.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch ym Malta

Cysylltwch â'r Weinyddiaeth Bolisi Cymdeithasol am wybodaeth.

Ministry of Social Policy
Palazzo Castellania,
15 Merchant's Street,
Valletta,
VLT 2000,
Malta

Gwefan: http://www.sahha.gov.mt

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser ym Malta, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Bydd triniaeth ar gael gan feddygon mewn canolfannau iechyd cyhoeddus. Cofiwch bod rhaid i chi gyflwyno eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) ar gyfer pob triniaeth.

Deintyddion

Nid yw'n angenrheidiol cofrestru gyda deintydd am ofal deintyddol wedi ei ddarparu gan y wladwriaeth.
Rhoddir triniaeth ddeintyddol mewn argyfwng difrifol am ddim, ond dylech chwilio am ysbyty cyhoeddus neu ganolfan iechyd gan nad yw ar gael yn gyffredin. Mae'r rhan fwyaf o ddeintyddion yn gweithio'n breifat. Nid yw unrhyw gostau a dynnir am ofal iechyd preifat yn ad-daladwy.

Triniaeth ysbyty

Mae triniaeth mewn adran damweiniau ac argyfwng mewn ysbyty cyhoeddus am ddim. Cofiwch, mae'n rhaid i chi ddangos eich EHIC ar gyfer pob triniaeth.

Presgripsiynau

Mae unrhyw feddyginiaeth sy'n cael ei ragnodi yn ystod triniaeth fel claf mewnol, neu am y tri diwrnod cyntaf wedi i chi gael eich rhyddhau, am ddim. Ond, byddwch yn gorfod talu yn llawn am unrhyw beth fydd yn cael ei ragnodi ar ôl y cyfnod hwn ac nid yw'r taliadau hyn yn ad-daladwy. Bydd raid i chi ddangos eich EHIC.

Ambiwlans
Mae teithio mewn ambiwlans am ddim mewn argyfwng cyn belled â'ch bod yn medru profi bod gennych hawl i gael triniaeth. Cofiwch fod raid i chi ddangos eich EHIC ar gyfer pob triniaeth.

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r fferyllfa yn 'Mater Dei Hospital' i wneud trefniadau ar gyfer cyflenwi offer ocsigen cyn i chi adael y DU. Bydd raid i chi ddangos eich 'Tystysgrif Cymhwyster' i'r awdurdodau ym Malta pan fyddwch yn casglu'r offer.
Gallwch anfon e-bost at y fferyllfa yn dispensary.mdh@gov.mt neu ffoniwch ar 0035 6 2545 6514 (24 awr).

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros ym Malta. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd ym Malta.

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC ym Malta

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd.. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad yw eich ymweliad yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Cysylltwch â Gweinyddiaeth Iechyd Malta, yr Uned Hawlio a dangoswch eich derbynebau gwreiddiol.

Ministry of Health
Entitlement Unit
24 St. John's Street,
Valletta,
MALTA CMR02

Ffôn: 0035 6 21 22 40 71
E-bost: entitlements.mhec@gov.mt

Os bu'n rhaid i chi dalu am gost eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser ym Malta, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd llawer mwy o amser na hawlio ad-daliad ym Malta.

Byw ym Malta

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd ym Malta.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Falta i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd-dal y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Cysylltwch â Gweinyddiaeth Iechyd Malta, yr Uned Hawlio, a fydd yn rhoi 'Tystysgrif Hawl' i chi. Bydd raid i chi ddangos y ffurflen hon wrth ofyn am driniaeth mewn cyfleusterau iechyd cyhoeddus.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Nid oes angen cofrestru â meddyg teulu na deintydd.

Gweithio ym Malta

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106
Cysylltwch â Gweinyddiaeth Iechyd Malta, yr Uned Hawliau, a fydd yn rhoi 'Tystysgrif Hawl' i chi. Bydd raid i chi ddangos y ffurflen hon wrth ofyn am driniaeth mewn cyfleusterau iechyd cyhoeddus.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Nid oes angen cofrestru â meddyg teulu na deintydd.

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn yr Iseldiroedd

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr yr Iseldiroedd. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd. Ni fydd unrhyw gostau a dynnir am ofal iechyd preifat yn ad-daladwy.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn yr Iseldiroedd.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn yr Iseldiroedd

Bydd 'AGIS Zorgverzekeringen' yr Iseldiroedd yn medru rhoi gwybodaeth.

AGIS Zorgverzekeringen
Groep Buitenlands Recht
PO Box 1725
3800 BS Amersfoort

Rhif ffôn: 0031 (0)33 445 68 70

NHS choices

(Dydd Llun i ddydd Gwener o 8.30 am hyd 5.00 pm)

Mae gwybodaeth drylwyr am y system yswiriant iechyd yn yr Iseldiroedd ar gael ar-lein hefyd ar wefan y Weinyddiaeth Iechyd, Lles a Chwaraeon.

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn yr Iseldiroedd, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Dylech ymgynghori â meddyg sy'n gweithio dan y cynllun 'AGIS Zorgverzekeringen'. Mae triniaeth yn rhad ac am ddim fel arfer. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) neu gerdyn yswiriant yr Iseldiroedd os ydych chi'n byw yn yr Iseldiroedd.

Deintyddion

Dim ond ar gyfer plant y mae gofal deintyddol gan y wladwriaeth ar gael. Mae'n rhaid i bawb arall dalu am driniaeth ddeintyddol, ac nid yw'n ad-daladwy.

Triniaeth ysbyty

Ynghyd â'ch meddyg, bydd raid i chi gael caniatâd gan yr awdurdodau yn yr Iseldiroedd, 'AGIS Zorgverzekeringen' er mwyn cael triniaeth ysbyty fel claf mewnol am ddim. Os byddwch yn cael eich derbyn i'r ysbyty cyn cysylltu â meddyg e.e. mewn argyfwng yna bydd raid i chi ddangos eich EHIC neu gerdyn yswiriant yr Iseldiroedd os ydych yn byw yn yr Iseldiroedd, wrth gael eich derbyn i'r ysbyty. Gofynnwch i weinyddwyr yr ysbyty gysylltu ag AGIS Zorgverzekeringen ar unwaith.

Presgripsiynau
Gall y taliadau amrywio, gan ddibynnu ar eich presgripsiwn,. Os hoffech gael gwybod a oes ad-daliad ar gael, cysylltwch ag AGIS.

Ambiwlans
Mae'r gwasanaeth ambiwlans am ddim ar yr amod bod meddyg yn cytuno ei fod yn angenrheidiol.

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r swyddfa AGIS Zorgverzekeringen i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU. Bydd awdurdodau'r Iseldiroedd yn gofyn am lythyr gan eich meddyg yn y DU yn cadarnhau bod arnoch angen therapi ocsigen. Bydd raid i chi hefyd dalu ffi fechan na fydd yn ad-daladwy.

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn yr Iseldiroedd. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn yr Iseldiroedd.

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC yn yr Iseldiroedd

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr

oeddech yn bwriadu dychwelyd. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad yw eich ymweliad yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Hawlir ad-daliadau gan swyddfa AGIS Zorgverzekeringen yn yr Iseldiroedd.

Os bu'n rhaid i chi dalu am gost eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn yr Iseldiroedd, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad yn yr Iseldiroedd.

Byw yn yr Iseldiroedd

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladwol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn yr Iseldiroedd.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i'r Iseldiroedd i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd-dal y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â swyddfa AGIS Zorgverzekeringen. Byddant yn rhoi cerdyn yswiriant i chi sy'n rhoi'r hawl i chi ddefnyddio gofal meddygol.

Byddwch hefyd yn derbyn holiadur gan y College Voor Zorgverzekeringen neu CVZ (Bwrdd Yswiriant Iechyd yr Iseldiroedd). Rhaid i'r holiadur gael ei lenwi a'i ddychwelyd i'r CVZ, sydd wedyn yn penderfynu, yn ddibynnol ar eich amgylchiadau, a ydych yn atebol i dalu premiymau yswiriant salwch yn yr Iseldiroedd.

Sut i gofrestru gyda Meddyg Teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn yr Iseldiroedd

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi, bod eich swydd am lai na dwy flynedd a'ch bod yn defnyddio Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) i ddefnyddio gofal iechyd.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu â swyddfa AGIS Zorgverzekeringen. Byddant yn rhoi cerdyn yswiriant i chi sy'n rhoi'r hawl i chi ddefnyddio gofal meddygol.

Sut i gofrestru â Meddyg Teulu

Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Norwy

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Norwy. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Nid yw gwladolion nad ydynt yn perthyn i'r AEE wedi'u diogelu yn Norwy.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Norwy

Cysylltwch â'r Weinyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Gofal yn Norwy am wybodaeth.

Ministry of Health and Care Services
Einar Gerhardsens plass 3 (S-blokken)
Postboks 8011 Dep
0030 Oslo

Rhif ffôn: 0047 22 24 90 90
E-bost: postmottak@hod.dep.no
Gwefan: www.regjeringen.no

Yn ychwanegol dylech gysylltu â Chanolfan Gwasanaeth Gweinyddu'r gwasanaeth Iechyd NAV neu un o'r Asiantaethau Gwasanaeth Iechyd NAV cyn gadael y DU. NAV yw Sefydliad Gwaith a Lles Norwy.

Prif Swyddfa Gweinyddu'r Gwasanaeth Iechyd NAV
PO Box 2415, 3104 Tønsberg
Rhif ffôn: 0047 33 51 22 50
E-bost: nav.helsetjenesteforvaltning.hovedkontor@nav.no

Canolfan Wasanaeth Gweinyddu'r Gwasanaeth Iechyd NAV
PO Box 2022, 3103 Tønsberg
Rhif ffôn: 0047 815 70 030
E-bost: nav.helsetjenesteforvaltning.servicesenter@nav.no

Asiantaeth Gwasanaeth Iechyd Oslo NAV (ar gyfer Oslo)
PO Box 6721 Etterstad, 0609 Oslo
Rhif ffôn: 0047 810 20 630
E-bost: nav.helsetjenesteforvaltning.oslo@nav.no

Asiantaeth Gwasanaeth Iechyd y Dwyrain NAV (ar gyfer Akershus, Østfold, Oppland a Hedmark)
Serviceboks 1412, 1602 Fredrikstad
Rhif ffôn: 0047 69 01 11 10
E-bost: nav.helsetjenesteforvaltning.ost@nav.no

Asiantaeth Gwasanaeth Iechyd y De NAV (ar gyfer Vestfold, Telemark, Buskerud, Aust-Agder a Vest-Agder)
PO Box 2415, 3104 Tønsberg
Rhif ffôn: 0047 33 51 23 00
E-bost: nav.helsetjenesteforvaltning.sor@nav.no

Asiantaeth Gwasanaeth Iechyd y Gorllewin NAV (ar gyfer Rogaland, Hordaland, Sogn og Fjordane)
PO Box 14, 4097 Sola
Rhif ffôn: 0047 52 04 75 50
E-bost: nav.helsetjenesteforvaltning.vest@nav.no

Asiantaeth Gwasanaeth Iechyd Canol Norwy NAV (ar gyfer Møre og Romsdal, Sør- a Nord-Trøndelag)
PO Box 13, 6151 Ørsta
Rhif ffôn: 0047 70 32 13 40
E-bost: nav.helsetjenesteforvaltning.midt@nav.no

Asiantaeth Gwasanaeth Iechyd y Gogledd NAV (ar gyfer Nordland, Troms a Finnmark)
8607 Mo i Rana
Rhif ffôn: 0047 75 12 72 60
E-bost: nav.helsetjenesteforvaltning.nord@nav.no

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Norwy, ffoniwch 113. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon
Bydd ffi safonol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymgynghori â meddyg sydd â threfniant ad-dalu gyda'r NAV (Sefydliad Gwaith a Lles Norwy). Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr meddygol.

Deintyddion
Fel arfer bydd raid i chi dalu cost lawn unrhyw driniaeth ddeintyddol.

Triniaeth ysbyty
Mae taliadau'n daladwy am ymgynghoriadau arbenigol a thriniaeth fel claf allanol. Fel arfer bydd meddyg yn eich cyfeirio at ysbyty. Mewn argyfwng, gallwch gael triniaeth o'r ysbyty cyhoeddus agosaf. Mae triniaeth fel claf mewnol, gan gynnwys unrhyw feddyginiaeth angenrheidiol, am ddim.

Presgripsiynau
Bydd raid i chi dalu am y rhan fwyaf o feddyginiaethau ar bresgripsiwn. Ond, os byddwch yn cael meddyginiaethau gan feddyg ar bresgripsiwn glas (meddyginiaeth ar gyfer cyflyrau cronig fel arfer), dylech orfod talu llai.

Ambiwlans
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen

Cysylltwch ag un o'r Asiantaethau Gwasanaeth Iechyd NAV i wneud trefniadau cyn gadael y DU. Bydd raid i chi ddangos eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) a llythyr gan eich Meddyg Teulu yn esbonio pam bod arnoch angen therapi ocsigen. Ond, mae'n bosibl y bydd ffi yn daladwy o hyd.

Dialysis

Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Norwy. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Norwy.

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC yn Norwy

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd.. Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad yw eich ymweliad yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Cysylltwch ag un o'r Asiantaethau Gofal Iechyd NAV. Byddant yn ad-dalu unrhyw daliadau sy'n ad-daladwy i chi.
Os bu'n rhaid i chi dalu am gost eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn Norwy, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd llawer mwy o amser na hawlio ad-daliad yn Norwy.

Byw yn Norwy

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Norwy.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Norwy i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd-dal y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddfa Genedlaethol dros Yswiriant Cymdeithasol Dramor ar 0047 23 31 1300. Yn ychwanegol, efallai y gofynnir i chi ddarparu copi o'r E121/ E106 gwreiddol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru gyda Meddyg Teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn Norwy

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu ag un o'r swyddfeydd Gwasanaeth Iechyd NAV yn Norwy. Yn ychwanegol, efallai y gofynnir i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â Meddyg Teulu

Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yng Ngwlad Pwyl

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylydd Gwlad Pwyl. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yng Ngwlad Pwyl.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yng Ngwlad Pwyl

Bydd y Centrala Narodowego Funduszu Zdrowia (NFZ) - Biuro Współpracy Międzynarodowej (Swyddfa Ganolog y Gronfa Iechyd Genedlaethol a Materion Rhyngwladol) yn medru rhoi gwybodaeth.

Centrala Narodowego Funduszu Zdrowia (NFZ) - Biuro Współpracy Międzynarodowej
ul. Grójecka 186
02-390 Warszawa

Rhif ffôn: 0048 (22) 572 62 68
E-bost: ca17@nfz.gov.pl
Gwefan: www.nfz.gov.pl

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yng Ngwlad Pwyl, ffoniwch 999. Gallwch hefyd ddefnyddio 112, sef y rhif cyfatebol i'r Undeb Ewropeaidd. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Mae darparwyr iechyd sy'n gweithio dan y cynllun gofal iechyd gwladol wedi eu nodi gyda'r logo NFZ.

Meddygon

Mae meddygfeydd ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener o 8am i 6pm. Ar ôl 6 pm ar ddyddiau gwaith, penwythnosau ac ar wyliau rhoddir gwasanaethau meddygol 24 awr gan unedau iechyd a gontractiwyd gan yr NFZ. Mae cyfeiriadau a rhifau ffôn yr unedau iechyd sy'n cynnig gofal 24 awr ar gael gan yr NFZ.

Deintyddion

Yn aml mae deintyddion yn cynnig triniaeth NFZ a phreifat. Efallai felly na fydd gwasanaethau NFZ ar gael bob dydd o'r wythnos ac fe ddylech wirio gyda'r ddeintyddfa ymlaen llaw. Mae rhestr o wasanaethau a deunyddiau am ddim ar gael hefyd yn y

ddeintyddfa. Codir tâl am wasanaethau a deunyddiau nad ydynt yn rhai arferol. Am ragor o wybodaeth am wasanaethau deintyddol yng Ngwlad Pwyl, cysylltwch â NFZ.

Triniaeth ysbyty
Bydd raid i feddyg eich cyfeirio cyn y cewch eich derbyn i ysbyty. Mewn achosion o salwch sydyn, damwain neu argyfyngau eraill, fodd bynnag, nid oes raid i chi gael eich cyfeirio.
Ceisiwch fynd i ysbyty sydd â chontract gyda'r NFZ. Yn ystod eich arhosiad yn yr ysbyty mae llawdriniaethau, profion diagnostig a meddyginiaethau yn cael eu darparu am ddim.

Presgripsiynau
Dylai presgripsiwn gael ei roi gan feddyg sy'n gweithio o fewn NFZ. Ewch â'r presgripsiwn a'ch EHIC at y fferyllydd. Codir tâl am feddyginiaethau o

- lwmp swm o 3,20 zł – ar gyfer meddyginiaethau sylfaenol
- 30% 50% o bris meddyginiaeth –ar gyfer meddyginiaethau atodol
- y pris llawn ar gyfer meddyginiaethau nad ydynt yn cael eu cynnwys ar y rhestr cyffuriau ad-daladwy.

Ambiwlans
Mae ambiwlans yn rhad ac am ddim mewn argyfyngau bob amser.

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw
Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r swyddfa NFZ i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Centrala Narodowego Funduszu Zdrowia (NFZ) - Biuro Współpracy Międzynarodowej

NHS choices

ul. Grójecka 186
02-390 Warszawa

Rhif ffôn: 0048 (22) 572 62 68

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yng Ngwlad Pwyl. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yng Ngwlad Pwyl.

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC yng Ngwlad Pwyl

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd . Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad yw eich ymweliad yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Hawlir ad-daliadau o swyddfa'r NFZ yng Ngwlad Pwyl.

Os bu'n rhaid i chi dalu am gost eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yng Ngwlad Pwyl dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad yng Ngwlad Pwyl.

Byw yng Ngwlad Pwyl

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i awdurdodau iechyd Gwlad Pwyl.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Wlad Pwyl i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd-dal y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â swyddfa NFZ. Yn ychwanegol, efallai y bydd gofyn i chi ddarparu copi o'r E121/ E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yng Ngwlad Pwyl
Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106
Bydd angen i chi gysylltu â swyddfa NFZ. Yn ychwanegol, efallai y bydd gofyn i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?
Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd ym Mhortiwgal

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Portiwgal. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu ym Mhortiwgal.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch ym Mhortiwgal

Bydd yr Administracão Regional de Saúde yn medru darparu gwybodaeth. Mae ganddynt sawl swyddfa ym Mhortiwgal. Mae Maderia a'r Azores yn cael eu rheoli gan gangen ar wahân bob un.

Portugal
Administracão Regional de Saúde do Centro
Alameda Júlio Henriques
3000-457 COIMBRA

NHS choices

Rhif ffôn: 00351 239 796 800
E-bost: secretariado.ca@arscentro.min-saude.pt

Maderia
Rhif ffôn: 00351 291 236 525 neu 00351 291 213 280

Yr Azores
Rhif ffôn: 00351 295 204 200

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser ym Mhortiwgal, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon
Darperir gofal iechyd gwladol yn ddi-dâl.

Deintyddion
Darperir gofal iechyd gwladol yn ddi-dâl.

Triniaeth ysbyty
Darperir gofal iechyd gwladol yn ddi-dâl.

Presgripsiynau
Mae fferyllfeydd ar gael trwy Bortiwgal. Fel arfer maent ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9.00am i 1.00pm, a 3.00pm i 7.00pm. Ar benwythnosau maent ar agor o 9.00am i 1.00pm.

Mae rhestrau o fferyllfeydd sy'n darparu gwasanaeth 24 awr ar gael o unrhyw fferyllfa arferol.

Ambiwlans
Dim gwybodaeth ar gael

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r gangen berthnasol o'r Administracão Regional de Saúde i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros ym Mhortiwgal. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd ym Mhortiwgal.

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC ym Mhortiwgal

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd . Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad yw eich ymweliad yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Hawlir ad-daliadau gan y gangen berthnasol o'r Administracão Regional de Saúde.

Os bu'n rhaid i chi dalu am gost eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser ym Mhortiwgal dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad ym Mhortiwgal.

Byw ym Mhortiwgal

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd ym Mhortiwgal.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Bortiwgal i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd-dal y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'ch cangen berthnasol o'r Administracão Regional de Saúde. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio ym Mhortiwgal

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi, bod eich swydd am lai na dwy flynedd a'ch bod yn defnyddio Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) i ddefnyddio gofal iechyd.

Sut i gofrestru eich E106
Bydd angen i chi gysylltu â'r gangen berthnasol o'r Administracão Regional de Saúde. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?
Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Rwmania

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Rwmania. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn Rwmania.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Rwmania

Bydd y Casa Nationala de Asiguarari de Sanatate yn medru darparu gwybodaeth.

Casa Nationala de Asiguarari de Sanatate
248 Calea Calarasilor
BL.S19, Sector 3
Bucharest
Romania

Rhif ffôn: 0044 21 302 6247
E-bost: relpublas@casan.ro neu relpubl33@casan.ro

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Rwmania, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Os bydd arnoch angen mynd i weld meddyg, deintydd, fferyllydd, neu fynd i ysbyty yn ystod eich ymweliad â Rwmania, yna dylech wirio a ydynt yn gweithio gyda'r Casa Nationala de Asiguarari de Sanatate. Byddai'n ddoeth cysylltu â'r awdurdodau iechyd yn Rwmania cyn gadael y DU.

Yn gyffredinol nid oes cost am ymgynghoriadau meddygol. Ond, bydd raid i chi dalu cyfran o gost unrhyw brofion y bydd meddyg neu ddeintydd yn gofyn amdanynt. Bydd tâl am bresgripsiynau hefyd.

Ambiwlans
Dim gwybodaeth ar gael.

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â'r Casa Nationala de Asiguarari de Sanatate i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Rwmania. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Rwmania.

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC yn Rwmania

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd . Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad yw eich ymweliad yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau
Hawlir ad-daliadau gan y Casa Nationala de Asiguarari de Sanatate.

Os bu'n rhaid i chi dalu am gost eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn Rwmania, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad yn Rwmania.

Byw yn Rwmania

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Rwmania.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Rwmania i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd-dal y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â Casa Nationala de Asiguarari de Sanatate. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn Rwmania

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi, bod eich swydd am lai na dwy flynedd a'ch bod yn defnyddio Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) i gael gofal iechyd.

Sut i gofrestru eich E106
Bydd angen i chi gysylltu â'r Casa Nationala de Asiguarari de Sanatate. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Slofacia

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Slofacia. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn Slofacia.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Slofacia

Bydd y Ministerstvo Zdravotníctva SR a elwir hefyd yn Weinyddiaeth Iechyd SR yn medru darparu gwybodaeth i chi.

Ministerstvo Zdravotníctva SR
Limbová 2, P.O. BOX 52,
837 52 Bratislava 37
Slovakia

Rhif ffôn: 00421 2 593 73 111
E-bost: office@health.gov.sk
Gwefan: http://www.health.gov.sk

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Slofacia, ffoniwch 155. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymgynghori â meddyg sy'n gweithio dan y system yswiriant iechyd yn Slofacia. Bydd cyfraniad claf yn cael ei godi.

Deintyddion

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymgynghori â deintydd sydd yn gweithio dan y system yswiriant iechyd yn Slofacia. Mae triniaeth argyfwng ar gael am ddim, ond mae cyfraniad claf at driniaethau deintyddol eraill yn cael ei godi fel arfer.

Triniaeth ysbyty

Mae triniaeth ysbyty argyfwng ar gael mewn unrhyw ward argyfwng. Nid oes raid i chi gael eich cyfeirio. Mae taliad dyddiol yn daladwy am driniaeth ysbyty fel claf mewnol (uchafswm am 21 diwrnod). Mae'r holl wasanaethau a meddyginiaethau eraill fel arfer am ddim, ond fe ellir codi taliadau sylweddol nad ydynt yn ad-daladwy am driniaethau cymhleth. Mae tâl am driniaeth i gleifion allanol.

Presgripsiynau

Mae ffi safonol yn daladwy am bob presgripsiwn ac efallai y bydd raid i chi dalu rhan o gost y feddyginiaeth ei hun. Mae gan fferyllfeydd restr o'r meddyginiaethau sy'n cael cymhorthdal cenedlaethol.

Ambiwlans
Dim gwybodaeth ar gael

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw
Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â Gweinyddiaeth Iechyd Slofacia SR i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Slofacia. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Slofacia.

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC yn Slofacia
Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd . Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad yw eich ymweliad yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Caiff ad-daliadau eu hawlio'n ôl gan yr awdurdodau yn Slofacia. Nid yw taliadau cleifion safonol yn ad-daladwy.

Os bu'n rhaid i chi dalu am gost eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn Slofacia, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser na hawlio ad-daliad yn Slofacia.

Byw yn Slofacia

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i awdurdodau iechyd Slofacia.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Slofacia i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd-dal y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r Weinyddiaeth Iechyd SR. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn Slofacia

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi, os bydd eich swydd am lai na dwy flynedd a'ch bod yn defnyddio Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) i gael mynediad at ofal iechyd.

Sut i gofrestru eich E106
Bydd angen i chi gysylltu â Gweinyddiaeth Iechyd SR. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?
Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Slofenia

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Slofenia. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Nid yw gwladolion y Swistir wedi'u diogelu yn Slofenia.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Slofenia

Bydd Sefydliad Yswiriant Iechyd Slofenia (HIIS) yn medru rhoi gwybodaeth i chi.

Health Insurance Institute of Slovenia (HIIS)
24 Miklosiceva Cesta
Ljubljana
Slovenia

Rhif ffôn: 0038 6130 772 20
Gwefan: www.zzzs.si
Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar-lein o'r wefan 'Llysgenhadaeth Prydain yn Ljubljana' (www.britishembassy.gov.uk)

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Slofenia, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Dylech ymgynghori â meddyg sydd wedi cofrestru gyda'r Sefydliad Yswiriant Iechyd (HIIS). Hyd yn oed gyda'ch Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC), efallai y bydd raid i chi dalu cyfraniad safonol claf tuag at eich triniaeth. Os na allwch ddarparu EHIC, gofynnir i chi dalu costau llawn y driniaeth.

Mae'r un amodau yn berthnasol os byddwch yn chwilio am ddeintydd yn ystod eich ymweliad.

Triniaeth ysbyty

Bydd raid i chi gael eich cyfeirio i gael triniaeth fel claf mewnol mewn ysbyty.

Presgripsiynau

Gallwch fynd i unrhyw fferyllfa yn Slofenia. Gall y tâl am feddyginiaethau amrywio gan ddibynnu ar eich presgripsiwn.

Ambiwlans

Mae gwasanaethau argyfwng yn rhad ac am ddim. Ond mae'n rhaid i feddyg gadarnhau eich bod arnoch wirioneddol angen ambiwlans. Os byddwch yn defnyddio ambiwlans ac nad oes brys yn cael ei ddatgan, bydd raid i chi dalu hyd at 70% o gostau gwasanaeth yr ambiwlans.

Ambiwlans awyr
Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen

Cysylltwch â'r HIIS i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Dialysis

Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Slofenia. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Slofenia.

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC yn Slofenia

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd . Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad yw eich ymweliad yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Nid oes system ad-daliadau yn Slofenia.

Os bu raid i chi dalu am gostau eich gofal, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU.

Byw yn Slofenia

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Slofenia.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Slofenia i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd-dal y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â'r Sefydliad Yswiriant Iechyd (HIIS). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn Slofenia

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi, bod eich swydd am lai na dwy flynedd a'ch bod yn defnyddio Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) i gael gofal iechyd.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu â'r Sefydliad Yswiriant Iechyd (HIIS). Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i’n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd’ am wybodaeth fanwl

Cael gofal iechyd yn Sbaen

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Sbaen. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn Sbaen.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Sbaen

Mae'r awdurdodau iechyd yn Sbaen wedi eu datganoli yn llwyr a gall systemau wahaniaethu yn sylweddol iawn. Cysylltwch â Gweinyddiaeth Iechyd Sbaen (Ministerio de Sanidad y Consumo) am ragor o wybodaeth.

Ministerio de Sanidad y Consumo
Paseo del Prado 18-20,
28014 Madrid

Rhif ffôn: 0035 901 400 100
Gwefan: www.msc.es

Gellir gweld cyfarwyddiadur o'r holl gyrff iechyd rhanbarthol yn y cymunedau annibynnol ar wefan y weinyddiaeth iechyd. (http://www.msc.es/en/organizacion/ccaa/directorio/home.htm)

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Sbaen, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Cyn ymgynghori â meddyg neu ysbyty (ambulatorio), gwnewch yn siŵr eu bod yn derbyn eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC). Mae rhai ysbytai a chanolfannau iechyd (centro sanitario) yn cynnig gofal iechyd preifat a gwladol a chi ddylai ddweud wrthynt pa wasanaeth yr ydych chi'n ei ddymuno. Cofiwch na ellir ad-dalu unrhyw gostau a dynnir am ofal iechyd preifat ac nid yw eich EHIC yn eich diogelu.

Meddygon

Mae gofal iechyd gwladol am ddim. Rhaid i chi sylweddoli y bydd gwestai a threfnwyr teithiau fel arfer yn cysylltu â meddyg preifat neu yn ei argymell a bydd yn codi tâl arnoch. Gallant gysuro ymwelwyr y byddant yn medru hawlio beth bynnag y byddant wedi ei dalu yn ôl, ond cyfeirio at drefniadau yswiriant preifat y maen nhw ac nid trefniadau'r UE.

Mewn rhai rhannau o'r wlad, yn arbennig yr ynysoedd, efallai y bydd raid i chi deithio cryn bellter i ddod o hyd i ddarparwr gofal iechyd gwladol. Os bydd arnoch angen galw meddyg allan mewn argyfwng, gwnewch yn siŵr bod eich EHIC gennych a gofynnwch am ofal iechyd sy'n cael ei ariannu gan y wladwriaeth.

Cofiwch y gall meddygon, canolfannau iechyd ac ysbytai fod ag amseroedd meddygfeydd gwahanol ar gyfer cleifion preifat a'r rhai sy'n cael eu trin dan y system wladol. Hefyd, os gofynnir i chi dalu ymlaen llaw, nid ydych yn cael eich trin dan y gwasanaeth iechyd yn Sbaen ac ni fydd eich EHIC yn cael ei dderbyn.

Deintyddion
Yn gyffredinol nid yw triniaeth ddeintyddol ar gael dan y system wladol ac nid yw'r costau yn ad-daladwy.

Triniaeth ysbyty
Bydd raid i feddyg eich cyfeirio cyn y cewch unrhyw driniaeth mewn ysbyty, ac eithrio argyfyngau. Ond fe ddylech geisio mynd i ysbyty cyhoeddus gan mai dim ond yr ysbytai hynny sy'n cynnig triniaeth am ddim. Gwnewch yn siŵr eich bod yn medru dangos eich EHIC wrth gael eich derbyn neu byddwch yn gorfod talu fel claf preifat. Nid yw costau a dynnir am driniaeth breifat yn ad-daladwy.

Presgripsiynau
Gellir cael meddyginiaethau sy'n cael eu rhagnodi gan ymarferwyr gwasanaeth iechyd o unrhyw fferyllfa (farmacia). Byddwch yn gorfod talu hyd at 40% o'r gost oni bai eich bod yn bensiynwr o'r DU neu'r AEE. Ond, bydd raid i chi fedru profi eich bod yn bensiynwr gwladol neu bydd raid i chi dalu.

Os bydd ysbyty yn dweud wrthych y bydd arnoch angen meddyginiaethau wedi i chi gael eich rhyddhau, bydd raid i chi fynd ag adroddiad meddygol yr ysbyty at feddyg, a fydd yn rhoi presgripsiwn i chi. Mae hyn oherwydd y bydd meddygon mewn ysbytai cyhoeddus yn rhagnodi meddyginiaethau ar yr adroddiad meddygol priodol ond nid ydynt yn rhoi presgripsiynau swyddogol.

Ambiwlans
Os bydd arnoch angen ambiwlans, gofynnwch i'r ysbyty gadarnhau ei fod yn cynnig gofal iechyd gwladol.

Ambiwlans awyr

Dim gwybodaeth ar gael

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen

Cysylltwch â'r awdurdodau iechyd yn Sbaen i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Dialysis

Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Sbaen. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Sbaen.

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC yn Sbaen

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd . Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad yw eich ymweliad yn benodol i roi genedigaeth.

<u>Sut i hawlio ad-daliadau</u>

Nid oes ad-daliadau gan fod gofal iechyd gwladol yn rhad ac am ddim.

Gallwch hawlio eich taliadau presgripsiwn yn ôl os ydych chi'n bensiynwr gwladol. Cysylltwch â Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Cofiwch gadw copïau o bopeth fyddwch chi'n ei anfon ar gyfer eich cofnodion.

Byw yn Sbaen

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Sbaen.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Sbaen i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd-dal y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Er mwyn cofrestru eich E121 neu E106 bydd raid i chi gael y gwaith papur a nodir isod yn y drefn ganlynol:

- Tystysgrif Preswylio (Certificado de Residencia) – sydd ar gael o'r orsaf heddlu leol.
- Tystysgrif fel Preswyliwr Lleol (Certificado de Empadronamiento) – sydd ar gael o neuadd y dref leol (yn y Padrón Office).

Gwiriwch yn ofalus iawn pa ddogfennau sy'n rhaid i chi eu llenwi, a'r broses y dylent gael eu llenwi trwyddi. Hefyd, cofiwch fod rhaid i chi wneud eich llungopïau eich hun cyn cyrraedd. Os byddwch yn anghofio rhywbeth, mae'n annhebygol y byddwch yn cael cwblhau'r broses ymgeisio ac fe allwch orfod mynd yn ôl eto.

Wedi cael eich tystysgrifau rhaid i chi fynd â nhw, ynghyd â chopïau o'ch E106 neu E121, i'r swyddfa 'Instituto Nacional de la Seguridad' leol. Byddant yn cadw un copi ac yn dychwelyd y copi arall wedi ei lofnodi a'i stampio i chi. Mae'r copi hwn yn caniatáu i chi ddefnyddio'r system gofal iechyd yn Sbaen.

NHS choices

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Os ydych yn dal E121, bydd raid i chi gofrestru gyda meddyg yn Sbaen. Fel deiliad E106, nid yw'n angenrheidiol i chi gofrestru â meddyg.

Gweithio yn Sbaen

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi

Sut i gofrestru eich E106

Er mwyn cofrestru eich E106 bydd raid i chi gael y gwaith papur a nodir isod yn y drefn ganlynol:

- Tystysgrif Preswylio (Certificado de Residencia) – sydd ar gael o'r orsaf heddlu leol.
- Tystysgrif fel Preswyliwr Lleol (Certificado de Empadronamiento) – sydd ar gael o'r neuadd y dref leol (yn y Padrón Office).

Gwiriwch yn ofalus iawn pa ddogfennau sy'n rhaid i chi eu llenwi, a'r broses y dylent gael eu llenwi trwyddi. Hefyd, cofiwch fod rhaid i chi wneud eich llungopïau eich hun cyn cyrraedd. Os byddwch yn anghofio rhywbeth, mae'n annhebygol y byddwch yn cael cwblhau'r broses ymgeisio ac fe allwch orfod mynd yn ôl eto.

Wedi cael eich tystysgrifau rhaid i chi fynd â nhw, ynghyd â chopïau o'ch E106, i'r swyddfa 'Instituto Nacional de la Seguridad' leol. Byddant yn cadw un copi ac yn dychwelyd y copi arall wedi ei lofnodi a'i stampio i chi. Mae'r copi hwn yn caniatáu i chi ddefnyddio'r system gofal iechyd yn Sbaen.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Nid oes raid i chi gofrestru â meddyg yn Sbaen.

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn Sweden

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr Sweden. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE wedi'u diogelu yn Sweden.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn Sweden

Mae system gofal iechyd Sweden yn un eang iawn ac wedi ei threfnu yn ôl cynghorau sir. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â 'Suveriges Kommuner och Landsting -SKL' (Cymdeithas Sweden o Awdurdodau Lleol a Rhanbarthau) neu ewch i wefan SKL.

'Suveriges Kommuner och Landsting -SKL
Hornsgatan 20
SE-118
82 Stockholm
Sweden

Rhif ffôn: 0046 8 452 70 00
E-bost: info@skl.se, Gwefan: www.skl.se

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn Sweden, ffoniwch 112. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Meddygon

Dylech ymgynghori â meddyg sy'n gysylltiedig â'r cynllun yswiriant cyhoeddus. Bydd tâl yn cael ei godi arnoch ar yr un sail ag un o breswylwyr Sweden. Nid yw'r taliadau'n ad-daladwy ac maent yn amrywio rhwng SEK 100 a SEK 150 (£8-£12) am bob triniaeth. Ond, mae unrhyw un dan 20 yn cael ei drin am ddim.

Deintyddion

Mae gofal deintyddol gan y wladwriaeth ar gael gan y rhan fwyaf o ddeintyddion. Cofiwch fod system ad-dalu Sweden yn newid o 1 Gorffennaf 2008. Dylech gysylltu â 'Suveriges Kommuner och Landsting –SKL' cyn gadael y DU am ragor o wybodaeth.

Triniaeth ysbyty

Yn gyffredinol mae triniaeth fel claf mewnol am ddim, ac eithrio tâl dyddiol safonol o SEK 80 (£6.50). Nid yw'r ffi hon yn ad-daladwy.
Codir tâl rhannol am driniaeth fel claf allanol ac nid yw'r costau'n ad-daladwy.
Codir rhwng SEK 200 - SEK 300 (£16 - £24) am ofal arbenigol.

Presgripsiynau

Gan ddibynnu ar eich presgripsiwn, gall y taliadau amrywio. Os hoffech gael gwybod a fydd ad-daliad yn bosibl cysylltwch â'r SKL.

Ambiwlans

Mae'r gwasanaeth ambiwlans am ddim yn y rhan fwyaf o ranbarthau Sweden.

Ambiwlans awyr
Mae gwasanaeth ambiwlans awyr am ddim yn y rhan fwyaf o ranbarthau Sweden.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â swyddfa 'Suveriges Kommuner och Landsting -SKL a gwneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Dialysis
Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn Sweden. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn Sweden.

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC yn Sweden

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd . Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad yw eich ymweliad yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Nid oes system ad-dalu yn Sweden. Ar yr amod bod gennych Gerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC), dylech fod wedi gorfod talu'r cyfraniadau cleifion safonol ac ni ellir cael ad-daliad am y rhain.

Os ydych wedi gorfod talu am gostau eich gofal, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU.

Byw yn Sweden

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn Sweden.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i Sweden i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd dâl y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106

Ar gyfer y ddau, bydd angen i chi gysylltu â swyddfa 'Suveriges Kommuner och Landsting -SKL. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E121/E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu

Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn Sweden

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi, bod eich swydd am lai na dwy flynedd a'ch bod yn defndydio Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) i gael gofal iechyd.

Sut i gofrestru eich E106

Bydd angen i chi gysylltu â swyddfa 'Suveriges Kommuner och Landsting -SKL. Gellir gofyn hefyd i chi ddarparu copi o'r E106 gwreiddiol a phrawf adnabod.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

A ydw i'n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?
Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd' am wybodaeth fanwl.

Cael gofal iechyd yn y Swistir

Gwybodaeth gyffredinol

Byddwch yn cael eich trin yn yr un modd â phreswylwyr y Swistir. Cofiwch fod system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl bethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim gan y GIG. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi wneud cyfraniad claf at gost eich gofal.

Mae'n bwysig i chi sicrhau y cewch eich trin gan ddarparwr gofal iechyd gwladol oherwydd ni fyddwch wedi'ch diogelu ar gyfer gofal iechyd preifat. Dylech fod yn ofalus iawn os yw gwesty neu gynrychiolydd teithio wedi trefnu'r gofal iechyd.

Mae gwladolion y DU a gwledydd eraill yr UE, ac eithrio Bwlgaria a Rwmania wedi'u diogelu yn y Swistir.
Nid yw gwladolion heblaw rhai'r AEE wedi'u diogelu yn y Swistir oni bai eich bod yn unigolyn di-wlad neu yn ffoadur.

Ble i gael gwybodaeth tra byddwch yn y Swistir

Cysylltwch â'r 'Gemeinsame Einrichtung KVG' (Y Sefydliad Cyffredin dan y Ddeddf Yswiriant Salwch Ffederal) am wybodaeth.

Gemeinsame Einrichtung KVG
Gibelinstrasse 25
Postfach
CH-4503 Solothurn

Rhif ffôn: 0041 32 625 30 30
Gwefan: www.kvg.org, e-bost: info@kvg.org

Rhifau argyfwng

Rhag ofn y byddwch yn cael eich hun mewn argyfwng yn ystod eich amser yn y Swistir, ffoniwch 144. Efallai yr hoffech gadw'r rhif yn eich ffôn.

Triniaeth, gwarchodaeth a chostau

Dylech holi a yw'r meddyg wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth iechyd cyhoeddus yn y Swistir a dangos eich EHIC. Fel arfer bydd raid i chi dalu cost lawn y driniaeth a'r gwasanaethau a hawlio ad-daliad wedyn. Os cewch eich derbyn i'r ysbyty, bydd yr anfoneb yn mynd yn uniongyrchol i'r 'Gemeinsame Einrichtung KVG'. Bydd raid i chi dalu tâl sefydlog (CHF 92 i oedolion a CHF 33 i blant) am bob cyfnod o 30 diwrnod o driniaeth. Gelwir hyn yn 'or-dâl', neu yn dâl 'tynadwy', neu 'gyfraniad claf', ac nid yw'n ad-daladwy.

Meddygon

Gallwch ymgynghori ag unrhyw feddyg sydd wedi cofrestru â chynllun yswiriant iechyd y Swistir.

Deintyddion

Nid yw triniaeth ddeintyddol wedi ei diogelu oni bai ei fod yn deillio o salwch difrifol neu ddamwain.

Triniaeth ysbyty

Fel arfer byddwch yn cael eich cyfeirio at ysbyty cyhoeddus gan feddyg. Mewn argyfwng, ewch yn syth i'r adran argyfwng mewn unrhyw ysbyty cyhoeddus.
Mae triniaeth fel claf mewnol mewn ysbyty cyhoeddus wedi ei ddiogelu, ond nid ar ward rannol breifat neu breifat, nac mewn ysbyty preifat.

Presgripsiynau
Mae meddyginiaethau a ragnodir gan feddyg, ac sydd ar y rhestrau swyddogol wedi eu diogelu.

Ambiwlans
Mae teithio mewn ambiwlans wedi ei ddiogelu hyd at 50% o'r gost ac uchafswm o CHF 500 y flwyddyn.

Ambiwlans awyr
Mae hanner cant y cant o gost achub mewn argyfwng a hyd at uchafswm blynyddol o CHF 5000 wedi ei ddiogelu.

Gwneud trefniadau gofal iechyd ymlaen llaw

Rhestrir isod y triniaethau neu'r cyflyrau mwyaf cyffredin y mae angen trefnu ar eu cyfer ymlaen llaw. Ar gyfer pob cyflwr neu driniaeth arall, dylech holi eich meddyg teulu. Cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno eich EHIC ar gyfer pob triniaeth dramor.

Therapi ocsigen
Cysylltwch â 'Gemeinsame Einrichtung KVG' i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gadael y DU.

Gemeinsame Einrichtung KVG
Gibelinstrasse 25
Postfach
CH-4503 Solothurn

Rhif ffôn: 0041 32 625 30 30

Dialysis

Mae angen i chi siarad â'r cydlynydd yn eich Uned Ddialysis yn y DU a fydd yn cysylltu â'r uned ddialysis agosaf at y man lle byddwch yn aros yn y Swistir. Fodd bynnag, bydd dialysis yn cael ei ddarparu yn amodol ar argaeledd yn y Swistir.

NHS choices

Hamdden neu fusnes – defnyddio eich EHIC yn y Swistir

Bydd eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn eich galluogi i gael gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth am gost is neu weithiau'n rhad ac am ddim. Bydd yn eich diogelu ar gyfer triniaeth y mae arnoch ei hangen er mwyn i chi aros yno tan yr oeddech yn bwriadu dychwelyd . Mae hefyd yn eich diogelu ar gyfer trin cyflyrau meddygol a oedd eisoes yn bodoli ac am ofal mamolaeth arferol ar yr amod nad yw eich ymweliad yn benodol i roi genedigaeth.

Sut i hawlio ad-daliadau

Os byddwch wedi talu costau am eich triniaeth gallwch anfon y bil gwreiddiol at y Gemeinsame Einrichtung KVG.

Os bu'n rhaid i chi dalu am gost eich gofal a heb fedru hawlio ad-daliad yn ystod eich amser yn y Swistir, dylech gysylltu ag adran Budd-daliadau Meddygol DWP ar 0191 218 1999 (Llun - Gwener, 8am - 5pm) pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn cymryd llawer mwy o amser na hawlio ad-daliad yn y Swistir.

Byw yn y Swistir

Os ydych chi'n derbyn pensiwn gwladol y DU, neu'n cael budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai y gallwch hawlio gofal iechyd gwladol y mae'r DU yn talu amdano. Bydd angen i chi wneud cais am E121, y dylech ei gyflwyno wedyn i'r awdurdodau iechyd yn y Swistir.

Fodd bynnag, os byddwch yn symud i'r Swistir i fyw ond nid i weithio ac os nad ydych yn derbyn budd-dal y DU, fe allech fod yn gymwys am hyd at ddwy flynedd a hanner o warchodaeth gofal iechyd gwladol, y mae'r DU yn talu amdani. Os felly, bydd angen i chi wneud cais am E106.

Sut i gofrestru eich E121 neu E106
Bydd raid i chi gyflwyno eich E121 neu E106 i'r 'Gemeinsame Einrichtung KVG. Byddwch wedyn yn derbyn holiadur. Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd at yr awdurdodau yn y Swistir a fydd yn ystyried y sail ar gyfer eich hawl i ofal iechyd yn y Swistir. Os bydd eich cais yn cael ei dderbyn, byddwch yn cael cerdyn yswiriant i gadarnhau eich hawl i ofal iechyd yn y Swistir.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

Gweithio yn y Swistir

Mae'r adran hon yn berthnasol os rhoddwyd E106 i chi.

Sut i gofrestru eich E106
Bydd raid i chi gyflwyno eich E106 i'r 'Gemeinsame Einrichtung KVG. Byddwch wedyn yn derbyn holiadur. Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd at yr awdurdodau yn y Swistir a fydd yn ystyried y sail ar gyfer eich hawl i ofal iechyd yn y Swistir. Os bydd eich cais yn cael ei dderbyn, byddwch yn cael cerdyn yswiriant i gadarnhau eich hawl i ofal iechyd yn y Swistir.

Sut i gofrestru â meddyg teulu
Dim gwybodaeth ar gael

NHS choices

A ydw i’n gymwys am driniaeth o dan y GIG o hyd?

Os oes gennych E121, nid ydych yn gymwys am driniaeth o dan reolau GIG arferol.
Os oes gennych E106 dilys, gallwch gael gofal iechyd y GIG o hyd.
Dylech hefyd ddarllen yr adran 'Triniaeth dramor a gynlluniwyd’ am wybodaeth fanwl.